



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales**  
**(The Official Record)**

**Dydd Iau 5 Ebrill 2001**

**Thursday 5 April 2001**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 4 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
*Questions on Local Government to the Minister for Finance, Local Government and Communities*
- 12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd  
*Questions to the Minister for Environment*
- 21 Datganiad ar Glwy'r Traed a'r Genau  
*Statement on Foot and Mouth Disease*
- 37 Datganiadau ar Asesiadau Fferm Gyfan o Indrawn a Addaswyd yn Enetig  
*Statement on Farm-scale Evaluation of Genetically Modified Maize*
- 48 Datganiad ar Ddyfodol Canolfan y Mileniwm  
*Statement on the Future of the Wales Millennium Centre*
- 68 Pwyntiau o Drefn  
*Points of Order*
- 72 Cynnig Trefniadol  
*Procedural Motion*
- 73 Cymeradwyo'r Amserlen Tri Mis ar gyfer Busnes y Cynulliad  
*Approval of the Three-month Timetable of Assembly Business*
- 74 Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion  
*Composite Motion: Approval of Orders*
- 76 Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001  
*The Approval of the Countryside and Rights of Way Act 2000 (Commencement No. 2) (Wales) Order 2001*
- 88 Cymeradwyo Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgybu) 2001  
*Approval of the General Teaching Councils for Wales (Disciplinary Functions) Regulations 2001*
- 95 Dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl Swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a geir yn neu o dan Reoliadau a wneir o dan Adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972  
*Delegation to the First Minister all the Functions of the National Assembly for Wales Contained in or under Regulations made under Section 2(2) of the European Communities Act 1972*
- 97 Cymeradwyo Newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 23, Adran 3 a Rheol Sefydlog Rhif 34  
*Approval of Changes to Standing Orders No. 23, Section 3 and Standing Order No.34*
- 100 Cynnig Trefniadol  
*Procedural Motion*

- 101 Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 7 ) Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)  
2001  
*Approval of the Local Government Finance ( Wales) Special Grant Report ( No 7 )  
(Wales) 2001*
- 107 Cynnig Trefniadol  
*Procedural Motion*
- 109 Dadl Fer: Stres—Ei Effeithiau ar Blant  
*Short Debate: Stress—The Effects on the Child*

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambwr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 9.05 a.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 9.05 a.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

### **Questions on Local Government to the Minister for Finance, Local Government and Communities**

#### **Moderneiddo Llywodraeth Leol Modernising Local Government**

**Q1 Jonathan Morgan:** Will the Minister make a statement on the Executive's measures to modernise local government? (OAQ10883)

**C1 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ar fusurau'r Weithrediaeth i foderneiddio llywodraeth leol? (OAQ10883)

**The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart):** We discussed the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2001 on 27 March. In addition, draft guidance on community strategies has been issued. I have completed consultation on new political structures and I am now consulting on a new ethical framework.

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Cawsom drafodaeth ar Orchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2001 ar 27 Mawrth. Yn ychwanegol at hyn, cyhoeddwyd canllawiau drafft ar strategaethau cymunedol. Yr wyf wedi cwblhau ymgynghoriad ar strwythurau gwleidyddol newydd ac yr wyf bellach yn ymgynghori ar fframwaith egwyddorol newydd.

**Jonathan Morgan:** Several months ago, in fact probably a year ago, the Assembly debated at length councillors' allowances and remuneration for those who serve in local government. There has been an unacceptable delay in the work being undertaken. The Assembly needs to know what the situation is now. The people of Wales expect decisions to be taken on this matter because of the strong feelings about it in Wales, particularly in Cardiff. Can you update the Assembly on this issue?

**Jonathan Morgan:** Sawl mis yn ôl, flwyddyn yn ôl mae'n debyg, cynhaliodd y Cynulliad drafodaeth faith ar lwfansau cynhorwyr a thaliadau ar gyfer y rhai sydd yn gwasanaethu mewn llywodraeth leol. Bu oedi annerbyniol wrth wneud y gwaith hwn. Mae angen i'r Cynulliad wybod beth yw'r sefyllfa erbyn hyn. Mae pobl Cymru'n disgwyl i benderfyniadau gael eu gwneud ar y mater hwn oherwydd bod teimladau cryf am hyn yng Nghymru, yn arbennig yng Nghaerdydd. Allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ar y mater hwn?

**Edwina Hart:** Consultants have been appointed and are commencing their work. The timetable, which I outlined to the Assembly, for them obtaining findings by the summer is still on line to be met.

**Edwina Hart:** Penodwyd ymgynghorwyr ac maent yn dechrau ar eu gwaith. Mae'r amserlen, a amlinellais i'r Cynulliad, er mwyn iddynt sicrhau canfyddiadau erbyn yr haf ar y trywydd cywir i gael ei chyflawni.

**Eleanor Burnham:** What assurances can you give that the new legislation proposed by the Assembly on openness in Welsh local government will stop a repeat of the situation

**Eleanor Burnham:** Pa sicrwydd y gallwch chi ei roi y bydd y ddeddfwriaeth newydd a gynigiwyd gan y Cynulliad ar fod yn agored mewn llywodraeth leol yng Nghymru yn atal

that occurred in Flintshire County Council? That council was recently criticised by the district auditor for a lack of openness, accountability and integrity.

sefyllfa debyg i'r un yng Nghyngor Sir y Fflint rhag digwydd eto? Beirniadwyd y cyngor hwnnw'n ddiweddar gan yr archwilydd dosbarth am fethu â bod yn agored, atebol a gonest.

**Edwina Hart:** I will not comment on the position of Flintshire County Council. The district auditor's report is a matter for that council.

**Edwina Hart:** Ni wnaf ymateb i sefyllfa Cyngor Sir y Fflint. Mater i'r cyngor hwnnw yw adroddiad yr archwilydd dosbarth.

### **Rhaglenni Adfywio Cymunedol Sector Gwirfoddol Voluntary Sector Community Regeneration Programmes**

**Q2 Jocelyn Davies:** Will the Minister make a statement on sources of funding for voluntary sector community regeneration programmes? (OAQ10832)

**C2 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ffynonellau cyllid ar gyfer rhaglenni adfywio cymunedol sector gwirfoddol? (OAQ10832)

**Edwina Hart:** The voluntary sector can bid for a number of National Assembly community regeneration programmes. I announced local regeneration fund top-sliced funding on 1 March for community capacity building and community regeneration initiatives, to be undertaken by 20 voluntary and community groups across Wales.

**Edwina Hart:** Gall y sector gwirfoddol wneud cais am nifer o raglenni adfywio cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol. Cyhoeddais arian brigdoriad y gronfa adfywio lleol ar 1 Mawrth er mwyn meithrin gallu cymunedau a mentrau adfywio cymunedol, a gynhelir gan 20 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol ledled Cymru.

**Jocelyn Davies:** Voluntary organisations that run projects rely on a cocktail of funding from many sources and accessing funding requires expertise that small organisations often lack. Do you agree that there is a strong case for simpler, broader funding schemes for voluntary sector projects and will you agree to review funding mechanisms?

**Jocelyn Davies:** Mae sefydliadau gwirfoddol sydd yn rhedeg prosiectau yn dibynnu ar gymysgedd o arian o nifer o ffynonellau ac mae cael mynediad i arian yn gofyn am arbenigedd nad yw sefydliadau bach yn meddu arno'n aml. A gytunwch fod dadl gref dros gyflwyno cynlluniau ariannu symlach ac ehangach ar gyfer prosiectau sector gwirfoddol ac a gytunwch i adolygu'r dulliau ariannu?

**Edwina Hart:** I have also been concerned—as has Jane Hutt, who has responsibility for the voluntary sector—about the problems faced by the voluntary sector, namely the plethora of organisations to which they must apply, the nature of the forms and so on. We are committed to considering streamlining structures and I hope that we will have seen improvements over the last year. This issue is very much on the voluntary sector's agenda.

**Edwina Hart:** Yr wyf hefyd wedi bod yn bryderus—fel y bu Jane Hutt, sydd yn gyfrifol am y sector gwirfoddol—am y problemau a wynebir gan y sector gwirfoddol, sef yr amrywiaeth eang o sefydliadau y mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau iddynt, natur y ffurflenni ac ati. Yr ydym yn ymrwymedig i ystyried symleiddio strwythurau a gobeithiaf inni weld gwelliannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r mater hwn yn bendant ar agenda'r sector gwirfoddol.

**David Melding:** Do you agree that successful community regeneration invariably involves the voluntary sector? Do

**David Melding:** A gytunwch fod adfywio cymunedol llwyddiannus yn dibynnu'n ddieithriad ar y sector gwirfoddol? A

you also agree that we must mainstream it in all schemes so that we have schemes that are aimed directly at the communities' purposes rather than being imposed on them?

gytunwch hefyd fod yn rhaid inni ei brif ffrydio ym mhob cynllun er mwyn sicrhau bod gennym gynlluniau sydd wedi eu hanelu'n uniongyrchol at ddibenion y cymunedau yn hytrach na chael eu gorfodi arnynt?

**Edwina Hart:** I concur about the bottom-ups approach. We must recognise that there is concern about the more formal aspects of the voluntary sector. Although we have an excellent relationship with the Welsh Council for Voluntary Action, some voluntary bodies do not feel that they are a part of that organisation. They feel that they are almost part of another structure. We must be genuine about these programmes. We must adopt a bottom-up approach, consulting with that base and ensuring the voluntary sector that we are putting the necessary mechanisms in place to empower it to become part of the discussion on this issue. That is the most difficult aspect of this and the voluntary sector has a valuable role in that.

**Edwina Hart:** Cytunaf â'r ymagwedd o'r bôn i'r brig. Rhaid inni gydnabod bod pryder ynglŷn ag agweddau mwy ffurfiol ar y sector gwirfoddol. Er bod gennym berthynas wych gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, nid yw rhai cyrff gwirfoddol yn teimlo eu bod yn rhan o'r sefydliad hwnnw. Teimlant eu bod bron yn rhan o strwythur arall. Rhaid inni fod yn ddiffuant ynghylch y rhagleni hyn. Rhaid inni fabwysiadu ymagwedd o'r bôn i'r brig, gan ymgynghori â'r sylfaen a sicrhau'r sector gwirfoddol ein bod yn cyflwyno'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn ei alluogi i ddod yn rhan o'r drafodaeth ar y mater hwn. Dyna yw'r agwedd anoddaf ar hyn ac mae gan y sector gwirfoddol ran werthfawr i'w chwarae yn hynny.

### Cyllidebau Awdurdodau Heddlu Police Authorities' Budgets

**Q3 David Davies:** What criteria will the Minister use to judge the excessiveness of a police authority's budget? (OAQ10880)

**C3 David Davies:** Pa feini prawf y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu defnyddio er mwyn barnu a yw cyllideb awdurdod heddlu'n rhy fawr? (OAQ10880)

**Edwina Hart:** I have yet to consider the principles by which police authority budgets will be judged. When I have done so, they will be put before the Assembly for approval.

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi ystyried eto'r egwyddorion y bernir cyllidebau awdurdodau'r heddlu yn eu herbyn. Pan fyddaf wedi gwneud hynny, fe'u cyflwynir i'r Cynulliad i'w cymeradwyo.

**David Davies:** Is it not the case that Gwent Police is losing out because 10 per cent of the formula used to allocate money to police authorities is based on historical spending rather than on need? What are you doing to fulfil the Government's commitment to reduce that 10 per cent to 0 per cent and to base the police authority funding formula on need rather than on historical spending?

**David Davies:** Onid yw Heddlu Gwent ar ei golled am fod 10 y cant o'r fformwla a ddefnyddir i ddyrannu arian i awdurdodau'r heddlu yn seiliedig ar wariant hanesyddol yn hytrach nag ar angen? Beth ydych yn ei wneud i gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i leihau'r 10 y cant hwnnw i 0 y cant a seilio fformwla ariannu awdurdodau'r heddlu ar angen yn hytrach nag ar wariant hanesyddol?

**Edwina Hart:** Gwent Police received the most generous increase of all four police authorities in Wales in the last financial year, 2000-01. However, I am concerned about the police funding formula and I have received

**Edwina Hart:** Derbyniodd Heddlu Gwent y cynnydd haefaf o'r pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, 2000-01. Fodd bynnag, pryderaf am fformwla ariannu'r heddlu, a derbynais

several representations from chief constables and police authorities about the need for us to examine it. I have written to Charles Clarke MP at the Home Office, who is responsible for policing. I raised several concerns and the fact that we should have equity throughout Wales as regards that formula.

9:15 a.m.

**Geraint Davies:** Do you recognise the importance of community policing in the fight against crime and are you concerned that 26 police stations have closed in south Wales since Labour came to power? Will you make representations to the UK Government for the control of the police to come to this Assembly so that it can ensure that community policing receives the funds that it deserves?

**Edwina Hart:** We cannot blame a Labour Government, however attractive that might be in the build up to the general election, for what police authorities decide to do and for police management in terms of the number of police stations. I accept the point that people want police stations in their area and like to have a building locally and someone to whom they can go, and to see the police as part of the community.

This is a Home Office matter, although no doubt there will be further representations in due course about the possibility of the police coming under the National Assembly's control.

#### **Cynlluniau Adfywio Cymunedol (Clwy'r Traed a'r Genau) Community Regeneration Schemes (Foot and Mouth Disease)**

**Q4 The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** Does the Minister propose to introduce any community regeneration schemes for those communities affected by the foot and mouth disease crisis? (OAQ10869)

**Edwina Hart:** The Communities First programme considers long-term solutions and targets funding to regenerate the most deprived communities in Wales. The Minister for Rural Affairs has convened a task and finish group drawn from the Wales Rural

sawl sylw gan briw gwnstabliaid ac awdurdodau'r heddlu am yr angen inni ei archwilio. Ysgrifennais at Charles Clarke AS yn y Swyddfa Gartref, sydd yn gyfrifol am blismona. Codais sawl pryder a'r ffaith y dylem gael cydraddoldeb drwy Gymru gyfan mewn cysylltiad â'r fformwla honno.

**Geraint Davies:** A gydnabyddwch bwysigrwydd plismona cymunedol yn yr ymgyrch yn erbyn troseddau ac a ydych yn pryeru bod 26 o orsafoedd yr heddlu wedi cau yn ne Cymru ers i Lafur ddod i rym? A wnewch chi gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i'r Cynulliad hwn gael rheolaeth dros yr heddlu er mwyn iddo allu sicrhau bod plismona cymunedol yn derbyn yr arian y mae'n ei haeddu?

**Edwina Hart:** Ni allwn feio Llywodraeth Lafur, waeth pa mor ddeniadol yw hynny wrth baratoi ar gyfer etholiad cyffredinol, am yr hyn y mae awdurdodau'r heddlu yn penderfynu ei wneud a rheolaeth yr heddlu yn nhermau nifer gorsafoedd heddlu. Derbyniad y pwyt fod pobl yn awyddus i gael gorsafoedd heddlu yn eu hardaloedd ac yn hoffi cael adeilad yn lleol a rhywun y gallant ymweld â hwy, a gweld yr heddlu fel rhan o'r gymuned.

Mater i'r Swyddfa Gartref yw hyn, er mae'n debyg y gwneir sylwadau pellach yn y man ynglŷn â'r posiblwydd y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ddod yn gyfrifol am yr heddlu.

**C4 Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno unrhyw gynlluniau adfywio cymunedol ar gyfer y cymunedau hynny yr effeithiwyd arnynt gan argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ10869)

**Edwina Hart:** Mae'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ystyried atebion tymor hir ac yn targedu arian i adfywio'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi cynnull grŵp gorchwyl a

Partnership, which includes representatives from local authorities, the tourism and farming industries and other rural businesses. Its brief is to assess the implications of the outbreak and prepare a plan to relaunch the rural economy when the disease abates, including dealing with rural stress. I await recommendations from that group.

**Nick Bourne:** I am sure that the Minister recognises—she would have been told, for example, by the Minister for e-commerce who attended a meeting of the Powys Rural Business Trust this week in Llandrindod Wells—that many businesses built up over many years, many of them tied up with family homes, are facing ruin. They need financial assistance over and above what has been announced to avoid going to the wall. That is true in Powys and I suspect that it is true throughout all of rural Wales. What will you do to help them?

**Edwina Hart:** The Government has taken the initiative in many ways in Wales to help as much as it can. In terms of business, what happens to individuals is a tragedy at every level. I think that you will agree, Nick, that we have to consider the reality of what will happen with these businesses and focus on how we can help them to get back on their feet when the crisis is over. The administration is considering all aspects of that.

**Brian Gibbons:** Do you agree that throughout Wales communities have been ravaged by the last 20 and 25 years—  
[CONSERVATIVE ASSEMBLY MEMBERS: ‘Come on.’]

What is your point?

**The Presiding Officer:** Order. Can we have a question please?

**Brian Gibbons:** These communities must not be sacrificed again to deal with some short-term problems.

**Edwina Hart:** Much deprivation has been caused to communities across Wales, none of

gorffen o Bartneriaeth Wledig Cymru, sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, y diwydiannau twristiaeth a ffermio a busnesau gwledig eraill. Ei gylch gorchwyl yw asesu goblygiadau'r argyfwng a pharatoi cynllun i ail-lansio'r economi wledig pan fydd y clwyf yn cilio, gan gynnwys ymdopi â straen gwledig. Yr wyf yn aros i dderbyn argymhellion gan y grŵp hwnnw.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog yn cydnabod—byddai wedi cael gwybod, er enghraift, gan y Gweinidog dros e-fasnach a fynychodd gyfarfod Ymddiriedolaeth Busnes Gwledig Powys yr wythnos hon yn Llandrindod—bod nifer o fusnesau a ddatblygwyd dros flynyddoedd lawer, nifer ohonynt yn gysylltiedig â chartrefi teuluoedd, yn wynebu'r posiblwrwydd y byddant yn mynd i'r gwellt. Mae angen cymorth ariannol arnynt y tu hwnt i'r hyn a gyhoeddwyd er mwyn osgoi mynd i'r wal. Mae hynny'n wir ym Mhowys a thybiaf fod hynny'n wir ym mhob rhan o Gymru wledig. Beth a wnewch i'w helpu?

**Edwina Hart:** Mae'r Llywodraeth wedi bod yn flaengar mewn sawl ffordd yng Nghymru i helpu cymaint ag y gallai. Yn nhermau busnes, mae'r hyn sydd yn digwydd i unigolion yn drychinebus ar bob lefel. Credaf y cytunwch, Nick, bod yn rhaid inni ystyried realiti'r hyn fydd yn digwydd gyda'r busnesau hyn a chanolbwytio ar sut y gallwn eu helpu i adsefydlu ar ôl i'r argyfwng gilio. Mae'r weinyddiaeth yn ystyried yr holl agweddau sydd yn gysylltiedig â hynny.

**Brian Gibbons:** A gytunwch fod cymunedau ledled Cymru wedi eu dinistrio gan yr 20 a'r 25 mlynedd ddiwethaf—[AELODAU CEIDWADOL O'R CYNULLIAD: ‘Dewch, dewch.’]

Beth yw eich pwynt?

**Y Llywydd:** Trefn. A allwn ni gael cwestiwn os gwelwch yn dda?

**Brian Gibbons:** Ni ddylid aberthu'r cymunedau hyn eto er mwyn delio â phroblemau tymor byr.

**Edwina Hart:** Achoswyd llawer o amddifadedd i gymunedau ledled Cymru, ac

which has been their fault. It is rather like what is happening to rural businesses and agriculture at present. It is not their fault either as these circumstances are outside their control. As a representative of the administration answering questions today, I think that it is essential that we recognise that we have to deal with these matters on an issue by issue basis to see what assistance we can give.

When we learn the outcome of the Corus negotiations, we will also have to consider what assistance we can give to damaged communities, such as Ebbw Vale and Llanwern, and perhaps elsewhere, for example, Shotton, which may be damaged if announcements are made on job losses there in the future.

**Elin Jones:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol fod y Comisiynydd Ewropeaidd, David Byrne, wedi cadarnhau ddoe y byddai pecyn o gymorth i'r economi wledig yn dilyn clwy'r traed a'r genau, ac y byddai hynny o fewn rheolau cystadlu'r Undeb Ewropeaidd? Os felly, a yw'r Gweinidog yn barod i gadarnhau y bydd y Cabinet yn pwysio am pecyn o gymorth o'r Trysorlys i'n cymunedau gwledig ar frys?

**Edwina Hart:** I await confirmation of any details via the Minister for Rural Affairs and we will take into account officials' advice on what we can do to help rural areas in these difficult times.

nid oes bai ar yr un ohonynt am hynny. Mae'n debyg i'r hyn sydd yn digwydd i fusnesau gwledig ac amaethyddiaeth ar hyn o bryd. Nid eu bai hwy yw hynny ychwaith am fod yr amgylchiadau hyn y tu hwnt i'w rheolaeth. Fel cynrychiolydd y weinyddiaeth sydd yn ateb cwestiynau heddiw, credaf ei bod yn holl bwysig ein bod yn cydnabod bod yn rhaid inni fynd i'r afael â'r materion hyn fesul un i weld pa gymorth y gellir ei roi.

Pan gawn wybod beth fydd canlyniad negodiadau Corus, bydd yn rhaid inni hefyd ystyried pa gymorth y gellir ei roi i gymunedau a ddifrodwyd, fel Glynebw y a Llanwern, ac mewn mannau eraill efallai, er enghraift, Shotton, a allai ddioddef os gwneir cyhoeddiadau am golli swyddi yno yn y dyfodol.

**Elin Jones:** Is the Minister aware that the European Commissioner, David Byrne, yesterday confirmed that there would be a package of assistance for the rural economy following the foot and mouth disease outbreak, and that that would be within the European Union's competition rules? If so, is the Minister willing to confirm that the Cabinet will urgently press for the Treasury to provide a package of assistance to our rural communities?

**Edwina Hart:** Arhosaf am gadarnhad am unrhyw fanylion drwy'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a byddwn yn ystyried cyngor y swyddogion ar yr hyn y gallwn ei wneud i helpu ardaloedd gwledig yn ystod yr amseroedd anodd hyn.

### **Papur Gwyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer Cymru Local Government Act 2000 White Paper for Wales**

**Q5 Janet Ryder:** Will the Local Government Act 2000 White Paper for Wales incorporate the principles governing conduct of members of relevant authorities? (OAQ10834)

**Edwina Hart:** An Order containing general principles of conduct for members and co-opted members of relevant authorities was issued for consultation last year. A revised version was issued in February. It will form part of the new ethical framework for local government, which I intend to bring to this

**C5 Janet Ryder:** A fydd Papur Gwyn ar gyfer Cymru Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ymgorffori'r egwyddorion sydd yn rheoli ymddygiad aelodau o awdurdodau perthnasol? (OAQ10834)

**Edwina Hart:** Cyhoeddwyd Gorchymyn yn cynnwys egwyddorion ymddygiad cyffredinol ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig o awdurdodau perthnasol ar gyfer ymgynghoriad y llynedd. Cyhoeddwyd fersiwn diwygiedig ym mis Chwefror. Bydd yn llunio rhan o'r fframwaith moesegol

Assembly for approval in June.

newydd ar gyfer llywodraeth leol, y bwriadaf ei gyflwyno i'r Cynulliad hwn i'w gymeradwyo ym mis Mehefin.

**Janet Ryder:** We have discussed the need for allegations against councillors to be dealt with by external bodies so that the public can be assured that they are dealt with fairly. You have touched on the district audit report for one council this morning. Do you agree that where such a report contains serious allegations, it too should be dealt with by an external body so that the public can be reassured that the points raised in the report are being dealt with?

**Janet Ryder:** Yr ydym wedi trafod yr angen i gyrrff allanol ymdrin â honiadau yn erbyn cynghorwyr fel y gellir sicrhau'r cyhoedd eu bod yn cael eu trin yn deg. Yr ydych wedi cyfeirio at adroddiad yr archwiliad dosbarth ar gyfer un cyngor y bore yma. A gytunwch, lle bo adroddiad o'r fath yn cynnwys honiadau difrifol, y dylai corff allanol ymdrin â hyn fel y gellir sicrhau'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad?

**Edwina Hart:** The public has the necessary reassurance on those issues through the ballot box. However, as you have raised the matter I will give it consideration.

**Edwina Hart:** Mae'r cyhoedd yn cael y sicrwydd sydd ei angen ar y materion hynny drwy'r blwch pleidleisio. Fodd bynnag, gan eich bod wedi codi'r mater byddaf yn rhoi ystyriaeth iddo.

**William Graham:** We welcome these regulations, not in total but in spirit, as discussed in Committee. How do you propose to enact the sanctions that may be involved?

**William Graham:** Croesawn y rheoliadau hyn, nid yn gyfan gwbl ond mewn ysbryd, fel y trafodwyd yn y Pwyllgor. Sut y bwriadwch gyflwyno'r cosbau a allai fod yn gysylltedig â hynny?

**Edwina Hart:** I know that you have particular concerns regarding the ethical framework, which you have raised in Committee. It is essential that we try to progress by ensuring the agreement of Welsh Local Government Association to the scheme that is being implemented. We also have to provide the public with the necessary security blanket and ensure that if things go wrong, measures will be implemented under this ethical framework. We will have to consider carefully what sanctions could be imposed if matters do not pan out as we envisage.

**Edwina Hart:** Gwn fod gennych bryderon penodol ynghylch y fframwaith moesegol, a godwyd gennych yn y Pwyllgor. Mae'n holl bwysig ein bod yn ceisio sicrhau cynnydd drwy sicrhau bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cytuno i'r cynllun a weithredir. Yr ydym hefyd wedi rhoi'r sicrwydd angenreidiol i'r cyhoedd a sicrhau y gweithredir mesurau o dan y fframwaith moesegol hwn os aiff pethau o'u lle. Bydd yn rhaid inni ystyried yn ofalus pa gosbau y gellid eu cyflwyno os na fydd pethau'n datblygu yn ôl y disgwyl.

### **Cyllid Cyfalaf Awdurdodau Lleol Capital Finance of Local Authorities**

**Q6 Janice Gregory:** Will the Minister make a statement on the progress for simplifying the arrangements for controlling the capital finance of local authorities? (OAQ10814)

**C6 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd i symleiddio'r trefniadau ar gyfer rheoli cyllid cyfalaf awdurdodau lleol? (OAQ10814)

**Edwina Hart:** A White Paper on reforming local government finance systems, including capital finance, is expected to be published during the summer. It will provide the

**Edwina Hart:** Disgwylir y cyhoeddir Papur Gwyn ar ddiwygio systemau cyllid llywodraeth leol, yn cynnwys cyllid cyfalaf yn ystod yr haf. Bydd yn rhoi cyfle i

opportunity for primary legislation, where and as required, to enable change to the local government finance system in Wales, such as moving to a prudential borrowing system. My officials are keeping in touch with the Department of the Environment, Transport and the Regions about the draughting. A joint working group has been established with the WLGA to examine the detailed proposals and identify any changes to secondary legislation that the Assembly may make independently of the review and in advance of the new system that is unlikely to be in place before April 2004.

**Janice Gregory:** Thank you for that comprehensive answer. Taking it further, do you anticipate that simplification would have an influence on the option of stock transfer of council housing?

**Edwina Hart:** The issues surrounding that are primarily ones for Treasury to consider. It is an avenue that will need to be explored. It might be helpful to Members if I were to provide the Local Government and Housing Committee with some details of what might be envisaged.

**David Lloyd:** A ydych yn cytuno y dylid meddwl eto am drefniadau'r fenter cyllid preifat?

**Edwina Hart:** As you know, I am currently consulting on PFI and the nature of public and private partnership. It is essential that the Local Government and Housing Committee and the Health and Social Services Committee have an opportunity to consider my consultation documents. As I indicated, there must be further discussion. There are aspects of PFI that concern people, particularly the involvement of staff in any transfer. We all share the concerns about that aspect of PFI. However, I do not intend to abandon the opportunity of trying to ensure some capital projects in Wales. It is strange that you have chosen to raise this issue as some Plaid Cymru controlled local authorities have been actively involved in PFI projects.

**Alun Cairns:** Will you continue the precedent you set last year by ring-fencing

ddeddfwriaeth sylfaenol, pryd a lle y bo angen, ysgogi newid i systemau cyllid llywodraeth leol yng Nghymru, fel symud tuag at system fenthyca ddarbolus. Mae fy swyddogion yn cadw mewn cysylltiad ag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynglŷn â'r drafftio. Sefydlwyd gweithgor ar y cyd â CLILC i archwilio'r cynigion manwl a nodi unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd y gall y Cynulliad ei gwneud yn annibynnol i'r adolygiad a chyn y system newydd sydd yn annhebygol o gael ei chyflwyno cyn mis Ebrill 2004.

**Janice Gregory:** Diolch ichi am yr ateb cynhwysfawr hwnnw. Gan fynd â'r mater ymhellach, a gredwch y byddai symleiddio'n dylanwadu ar yr opsiwn o drosglwyddo stoc tai cyngor?

**Edwina Hart:** Mae'r materion sydd yn gysylltiedig â hynny'n faterion i'r Trysorlys eu hystyried. Mae'n llwybr y bydd angen ei archwilio. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r Aelodau pe bawn yn darparu manylion am yr hyn a ragwelir i'r Pwyllor Llywodraeth Leol a Thai.

**David Lloyd:** Do you agree that we should rethink the arrangements for the private finance initiative?

**Edwina Hart:** Fel y gwyddoch, yr wyf wrthi'n ymgynghori ar y fenter cyllid preifat a natur y bartneriaeth gyhoeddus a phreifat. Mae'n holl bwysig y caiff y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol gyfle i ystyried fy nogfennau ymgynghorol. Fel y dywedais, rhaid cynnal trafodaeth bellach. Mae rhai agweddau ar y fenter cyllid preifat yn peri pryder i bobl, yn arbennig cyfranogiad staff mewn unrhyw drosglwyddiad. Yr ydym oll yn pryderu am yr agwedd honno ar y fenter cyllid preifat. Fodd bynnag, nid wyf yn bwriadu anwybyddu'r cyfle i geisio sicrhau rhywfaint o brosiectau cyfalaf yng Nghymru. Mae'n rhyfedd eich bod wedi codi'r mater hwn gan y bu rhai o'r awdurdodau lleol hynny a reolir gan Blaid Cymru yn weithgar iawn ar brosiectau'r fenter cyllid preifat.

**Alun Cairns:** A wnewch chi barhau â'r cysail a osodwyd gennych y llynedd drwy

funds for education so that the funding fog can be eliminated and Assembly Members be satisfied that all money going to education is spent in schools?

**Edwina Hart:** We are back to the issue of hypothecation. We will not have hypothecation. We have local democracy, we have all the necessary money going in to education and local authorities will be judged through the ballot box.

### **Codiadau yn y Dreth Gyngor yng Nghanol De Cymru Council Tax Increases in South Wales Central**

**Q7 David Melding:** Will the Minister make a statement on the recent increases in the level of council tax in South Wales Central? (OAQ10905)

**Edwina Hart:** Council tax increases are a matter for the local authority. Cardiff has an increase of 9.3 per cent, Rhondda Cynon Taff one of 4.8 per cent, and the Vale of Glamorgan one of 9.1 per cent.

**David Melding:** Do you agree that Rhondda Cynon Taff needs more resources to respond to socio-economic needs but that it is invidious to make the council tax payers of Cardiff and the Vale of Glamorgan fund those schemes? The funding should come from central Government. That is a more direct method that does not penalise councils in notionally more affluent areas.

**Edwina Hart:** The local government settlement was warmly welcomed by the WLGA, on which all council leaders sit. It is an excellent settlement and a significant cash increase in support from the Assembly of about 8 per cent. I do not accept that we could have done more as an administration. We were more than generous this year in terms of the settlement.

9:25 a.m

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd Questions to the Minister for Environment**

#### **Tai Cynaliadwy (Rheoliadau Cynllunio) Sustainable Housing (Planning Regulations)**

**Q1 Janet Davies:** How will planning

neilltuo arian ar gyfer addysg er mwyn gallu diddymu'r niwl cyllido a bodloni Aelodau'r Cynulliad bod yr holl arian ar gyfer addysg yn cael ei wario mewn ysgolion?

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi dychwelyd i'r mater o bridiannu. Ni fydd pridiannu. Mae gennym ddemocratiaeth leol, mae'r holl arian sydd ei angen yn mynd tuag at addysg a bennir awdurdodau lleol drwy'r blwch pleidleisio.

### **Codiadau yn y Dreth Gyngor yng Nghanol De Cymru Council Tax Increases in South Wales Central**

**C7 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y codiadau diweddar yn lefel y dreth gyngor yng Nghanol De Cymru? (OAQ10905)

**Edwina Hart:** Mater i'r awdurdod lleol yw codiadau yn y dreth gyngor. Mae Caerdydd wedi cynyddu 9.3 y cant, Rhondda Cynon Taf 4.8 y cant a Bro Morgannwg 9.1 y cant.

**David Melding:** A gytunwch fod angen mwy o adnoddau ar Rhondda Cynon Taf i ymateb i anghenion cymdeithasol economaidd ond ei bod yn annheg gwneud i dalwyr treth gyngor Caerdydd a Bro Morgannwg ariannu'r cynlluniau hynny? Dylai'r arian ddod o'r Llywodraeth ganolog. Mae hynny'n ddull mwy uniongyrchol nad yw'n cosbi cynghorau mewn ardaloedd y tybir eu bod yn fwy ffyniannus.

**Edwina Hart:** Croesawyd y setliad llywodraeth leol yn frwd gan CLLC, y mae pob arweinydd cyngor yn rhan ohono. Mae'n setliad gwych ac yn gynnydd ariannol sylweddol gan y Cynulliad o tua 8 y cant. Ni dderbyniaf y gallem fod wedi gwneud mwy fel gweinyddiaeth. Yr oeddem yn hael iawn eleni yn nhermau'r setliad.

regulations support the development of sustainable housing? (OAQ10921)

**The Minister for Environment (Sue Essex):** My colleague, Edwina Hart, has responsibility for housing, but from a planning perspective, the land use planning system makes an important contribution to sustainable housing primarily through land use planning policy at national and local levels. At national level, 'Planning Guidance (Wales): Planning Policy, First Revision (April 1999)', reflects sustainable development principles. It stresses the need for sustainable communities by reference to the need to consider links between housing, employment locations and transport links, and the draft 'Planning Policy Wales', which was recently issued for consultation, develops this concept further. At a local level, local planning authorities take the lead through their unitary development plans.

**Janet Davies:** How many councils have asked you for planning dispensation to build lifetime or low-energy homes?

**Sue Essex:** No requests have come to me, but I will check with Assembly officials whether they have received any.

**Peter Black:** As you know, some councils are concerned about the threat posed by second homes to rural communities and the need to provide local homes for local people. Will you consider issuing clear guidance to local councils on what they can do under planning law to facilitate policies to protect those communities?

**Sue Essex:** The planning guidance offers help on that, particularly since revisions were made in terms of the Welsh language guidance, which is reflected in the consultation document. In addition to that, we are commissioning research that will cover many aspects of the problems raised by Dafydd Wigley in his short debate and consider housing across the board and how we can protect communities. I hope that when we receive the results of that research later this year, they will pick up many of the concerns that have been raised in this

cynllunio'n cynorthwyo datblygiad tai cynaliadwy? (OAQ10921)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Fy nghyd-Aelod, Edwina Hart, sydd yn gyfrifol am dai, ond o safbwyt cynllunio, mae'r system cynllunio defnydd tir yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at dai cynaliadwy, yn bennaf drwy bolisi cynllunio defnydd tir ar lefelau cenedlaethol a lleol. Ar lefel genedlaethol, mae 'Arweiniad Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, Diwygiad Cyntaf (Ebrill 1999)', yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Pwysleisia'r angen am gymunedau cynaliadwy drwy gyfeirio at yr angen i ystyried cysylltiadau rhwng tai, lleoliadau cyflogaeth a chysylltiadau trafnidiaeth ac mae 'Polisi Cynllunio Cymru' drafft, a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ymgynghoriad, yn datblygu'r cysyniad hwn ymhellach. Ar lefel leol, mae awdurdodau cynllunio lleol yn arwain y gwaith hwn drwy eu cynlluniau datblygu unedol.

**Janet Davies:** Faint o gynghorau sydd wedi gofyn ichi am ddosbarthiad cynllunio i adeiladu cartrefi am oes neu gartrefi ynni isel?

**Sue Essex:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw geisiadau, ond gofynnaf i swyddogion y cynulliad pa'un a ydynt wedi derbyn rhai.

**Peter Black:** Fel y gwyddoch, mae rhai cynghorau'n poeni am fygythiad ail gartrefi i gymunedau gwledig a'r angen i ddarparu cartrefi lleol i bobl leol. A ystyriwch gyhoeddi arweiniad clir i gynghorau lleol ar yr hyn y gallant ei wneud o dan y gyfraith gynllunio i hwyluso polisiau i ddiogelu'r cymunedau hynny?

**Sue Essex:** Mae'r arweiniad cynllunio'n cynnig help ar hynny, yn arbennig ers i'r diwygiadau gael eu gwneud yn nhermau arweiniad ar yr iaith Gymraeg, a adlewyrchir yn y ddogfen ymgynghorol. Yn ychwanegol at hynny, yr ydym yn comisiynu ymchwil a fydd yn cwmpasu sawl agwedd ar y problemau a godwyd gan Dafydd Wigley yn ei ddadl fer ac yn ystyried y sefyllfa dai yn gyffredinol a sut y gallwn ddiogelu cymunedau. Fy ngobaith yw, pan dderbyniwn ganlyniadau'r ymchwil honno yn ddiweddarach eleni, y byddant yn trafod nifer

Chamber and beyond. We will then have a clearer view of what we need to do and how we can respond to Members' concerns.

**David Melding:** Do you agree that one of the best ways to develop sustainable housing is to use brownfield sites? Will you join me in congratulating the Vale of Glamorgan County Council for its excellent record in this area?

**Sue Essex:** If you consider planning guidance, which we have strengthened by introducing the sequential test, there is strong encouragement for local authorities to identify and develop brownfield sites. I support and welcome any local authority taking that approach. You will know, from previous discussions here, that much brownfield land needs to be treated before it can be used.

### **Strategaeth Wastraff Ddrafft Cymru Draft Waste Strategy for Wales**

**Q2 Pauline Jarman:** Can the Minister comment on the targets set in the draft waste strategy for Wales? (OAQ10912)

**Sue Essex:** I shall consult on proposals for a new waste strategy for Wales in May, which is when I hope to publish them. The consultation will contain options for much higher levels of recycling and composting. The Assembly will consider the final strategy before it is adopted. However, before finalisation of the strategy, local authorities will be asked, through policy agreements, to achieve combined recycling and composting levels of 15 per cent by 2003-04.

**Pauline Jarman:** Will you give a categorical statement that you are not in favour of further development of incineration?

**Sue Essex:** I cannot prejudice the consultation on the waste strategy, but I do not foresee a move from the traditional use of landfill to a dependence on incineration because the clear priority in terms of waste is waste minimisation. However, where there is waste, the emphasis must be on recycling and

o'r pryderon a godwyd yn y Siambra hon a thu hwnt. Yna bydd gennym ddarlun cliriach o'r hyn sydd angen ei wneud a sut y gallwn ymateb i bryderon yr Aelodau.

**David Melding:** A gytunwch mai un o'r ffyrdd gorau o ddatblygu tai cynaliadwy yw defnyddio safleoedd tir llwyd? A ymunwch â mi a llongyfarch Cyngor Sir Bro Morgannwg am ei waith gwych yn y maes hwn?

**Sue Essex:** Pe byddech yn ystyried arweiniad cynllunio, a atgyfnerthwyd gennym drwy gyflwyno'r prawf dilyniannol, ceir anogaeth gref i awdurdodau lleol nodi a datblygu safleoedd tir llwyd. Cefnogaf a chroesawaf unrhyw awdurdod lleol sydd yn mabwysiadu'r ymagwedd honno. Gwyddoch, o ganlyniad i drafodaethau blaenorol yma, fod angen trin llawer o dir llwyd cyn y gellir ei ddefnyddio.

**C2 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog sylw ar y targedau a bennir yn strategaeth wastraff ddrafft Cymru? (OAQ10912)

**Sue Essex:** Byddaf yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer strategaeth wastraff newydd Cymru ym mis Mai, a dyna pryd y gobeithiaf eu cyhoeddi. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys opsiynau ar gyfer lefelau llawer uwch o ailgylchu a gwneud gwrtraith. Bydd y Cynulliad yn ystyried y strategaeth derfynol cyn ei mabwysiadu. Fodd bynnag, cyn penderfynu ar ffurf derfynol y strategaeth, gofynnir i awdurdodau lleol, drwy gytundebau polisi, i gyflawni lefelau ailgylchu a gwneud gwrtraith cyfun o 15 y cant erbyn 2003-04.

**Pauline Jarman:** A wnewch chi ddatganiad pendant nad ydych o blaid unrhyw waith pellach i ddatblygu cyfleusterau llosgi?

**Sue Essex:** Ni allaf ddylanwadu ar yr ymgynghoriad ar y strategaeth wastraff, ond ni ragwelaf symud o'r defnydd traddodiadol o safleoedd claddu sbwriel i losgi oherwydd y flaenoriaeth amlwg yn nhermau gwastraff yw sicrhau'r isafswm o wastraff. Fodd bynnag, lle y ceir gwastraff, rhaid i'r

composting it. That is my initial feeling, although I cannot prejudice what the strategy will state after consultation.

**Mick Bates:** What action are you considering to alleviate concerns over dioxin levels in waste-to-energy plants such as those suggested for Wrexham and Neath Port Talbot?

**Sue Essex:** The Environment Agency advises us on any such major developments, so I depend on its expertise in assessing and monitoring those developments.

**David Davies:** Do you agree that it would be a good idea to start giving a larger proportion of the landfill tax back to local authorities so that they can spend it on recycling? Do you condemn the current policy of giving the majority of it back to the Treasury so that Gordon Brown can stash it away and hand it out just before a general election?

**Sue Essex:** I had not noticed Gordon Brown doing that. If you recall, I have said on many occasions, and in meetings with Michael Meacher MP—and I will meet him next week to emphasise it again—that having an element of environmental taxation that could be hypothecated to make direct links with improvements would be a welcome initiative. That is particularly true of the landfill tax, because, as we have said many times in this Chamber, we must make a rapid and dramatic move away from using landfills. Europe requires that. I cannot say any more than that. I have said this publicly, in Committee and to the Ministers involved.

**The Presiding Officer:** I call Christine Gwyther to ask question 5. Sorry, that should be Nick Bourne to ask question 3.

#### **Ceisiadau Cynllunio (Effaith ar yr Amgylchedd) Planning Applications (Environmental Impact)**

**Q3 Nick Bourne:** Can the Minister outline the consideration given to the possible environmental impact of planning applications? (OAQ10875)

pwyslais fod ar ei ailgylchu a'i wneud yn wrtaith. Dyna yw fy nheimlad cychwynnol i er na allaf ddylanwadu ar yr hyn a ddywed y strategaeth yn dilyn yr ymgynghoriad.

**Mick Bates:** Pa gamau ydych chi'n eu hystyried er mwyn lleddfu pryderon ynglŷn â lefelau diocsin mewn gweithfeydd gwastraff-i-ynni fel y rhai a awgrymwyd ar gyfer Wrecsam a Chastell Nedd Port Talbot?

**Sue Essex:** Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ein cynggori ar ddatblygiadau mawr o'r fath, felly dibynnaf ar ei harbenigedd wrth asesu a monitro'r datblygiadau hynny.

**David Davies:** A gytunwch y byddai'n syniad da dechrau rhoi cyfran uwch o'r dreth tirlenwi yn ôl i awdurdodau lleol fel y gallant ei wario ar ailgylchu? A feirniadwch y polisi presennol o roi'r mwyafrif ohono yn ôl i'r Trysorlys fel y gall Gordon Brown ei guddio ac yna ei rannu yn union cyn etholiad cyffredinol?

**Sue Essex:** Nid oeddwn wedi sylwi bod Gordon Brown yn gwneud hynny. Os cofiwch, dywedais ar sawl achlysur, ac mewn cyfarfodydd gyda Michael Meacher AS—a byddaf yn cwrdd ag ef yr wythnos nesaf i bwysleisio hynny eto—y byddai cael elfen o drethiant amgylcheddol y gellid ei phridiannu er mwyn sicrhau cysylltiadau uniongyrchol â gwelliannau yn fenter i'w chroesawu. Mae hyn yn arbennig o wir am y dreth tirlenwi, oherwydd, fel y dywedasom droeon yn y Siambr hon, rhaid inni roi'r gorau i ddefnyddio safleoedd tirlenwi yn gyflym a dramatig. Mae Ewrop yn mynnu hynny. Ni allaf ddweud mwy na hynny. Yr wyf wedi dweud hyn yn gyhoeddus, yn y Pwyllgor ac wrth y Gweinidogion dan sylw.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Christine Gwyther i ofyn cwestiwn 5. Mae'n ddrwg gennyd, galwaf ar Nick Bourne i ofyn cwestiwn 3.

**Sue Essex:** Local planning authorities have a duty to consider the environmental implications of all applications. They must take the views of bodies with environmental responsibilities and the views of the public into account before reaching a decision. Certain projects that are likely to have significant environmental effects must be subject to statutory environmental impact assessments. That process involves a more systematic method of assessing environmental information. In the small percentage of applications that come before the Assembly on appeal, or are called in, the Assembly becomes the competent authority and is required to look afresh at the issues involved.

**Nick Bourne:** In relation to mobile phone masts, what planning considerations are being proposed in planning guidance? In particular, are we able to encourage the sharing of mobile phone masts through the planning guidance?

**Sue Essex:** That is an area of concern, and I receive a great deal of correspondence from Members and from the public on it. Within the next few days—it is a complicated issue—I hope to announce my suggested approach to the regulations and planning guidance.

**Alun Pugh:** Onshore windfarms offer environmental benefits, but many people find them visually unacceptable. You will be aware of Betws-yn-Rhos Community Council's opposition to a planning application in my constituency. Will you ensure that offshore windfarms suggested for off the north Wales coast do not conflict with any proposed sites for tidal power stations?

**Sue Essex:** Most people will be aware of today's announcement and it is a Crown licence decision. It does not mean that those developments will go ahead, although, as you say, we want to see offshore wind development in principle. Hopefully, that can avoid many of the disagreements involved with windfarms on land. The proposed developments will have to go through a planning regime and will be subject to

**Sue Essex:** Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i ystyried goblygiadau amgylcheddol pob cais. Rhaid iddynt ystyried safbwytiau cyrff sydd â chyfrifoldebau amgylcheddol a safbwytiau'r cyhoedd cyn gwneud penderfyniad. Rhaid i brosiectau penodol sydd yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol fod yn destun asesiadau effaith amgylcheddol statudol. Mae'r broses honno'n cynnwys dull mwy systematig o asesu gwybodaeth amgylcheddol. Yn y ganran fechan o geisiadau a ddaw gerbron y Cynulliad ar apêl, neu a elwir i mewn, gweithreda'r Cynulliad fel yr awdurdod cymwys ac mae'n ofynnol iddo edrych o'r newydd ar y materion dan sylw.

**Nick Bourne:** Mewn cysylltiad â mastiau ffonau symudol, pa ystyriaethau cynllunio a gynigir yn yr arweiniad cynllunio? Yn arbennig, a allwn annog rhannu mastiau ffonau symudol drwy'r arweiniad cynllunio?

fynd i'r afael â hynny. Yn ogystal, mae gennym nifer o anifeiliaid ledled Cymru—ŵyn tew a gwartheg tew—yn y cyflwr gorau ar gyfer eu marchnata i fynd i'r gadwyn fwyd. Rhaid inni fynd i'r afael â hyn. Pwynt pwysig arall yw safleoedd ar gyfer gwaredu'r anifeiliaid a laddwyd. Yr oeddwn yn ymwybodol o'r problemau a grëwyd ar Ynys Môn, ac yr wyf yn ymwybodol o'r problemau a gafwyd ym Mrycheiniog. Er mwyn popeth, gadewch inni ei wneud yn rheol sefydlog bod yr holl anifeiliaid a leddir mewn ardaloedd heintus yn aros yn yr ardaloedd heintus hynny yn y dyfodol. Os byddwch byth yn ystyried safleoedd claddu eto, ymgynghorwch â phobl leol â gwybodaeth leol sydd yn deall y problemau. Byddai defnyddio maes awyr Mona yn enghraifft berffaith o hynny.

**Carwyn Jones:** On the slaughtered stock, the Epynt is in an infected area. That point has been made many times. It is not a question of animals being brought into a clean area. With regard to Penhesgyn, as you know, there was no other site in Anglesey. We either had the cull or we did not have the cull. If we did not have the cull, the island's situation would be disastrous, quite frankly. We have to operate on the basis of finding sites that the Environment Agency is content with. As far as Penhesgyn is concerned, the council originally did not want us to use Penhesgyn and, therefore, Mona was the only site. The council subsequently changed its mind and Penhesgyn became available. It was always the first choice site as far as the Environment Agency was concerned. Having been to Anglesey and sat in on what was almost a full council meeting on Sunday, I have no desire whatsoever to get involved with the politics of that island. On Sunday neither the First Minister nor I were prepared to take sides on what is clearly a lively situation on Anglesey council.

On the intervention board, there have been difficulties. The board is installing a new telephone system to ease the difficulties of farmers who are lodging applications. The difficulties that have arisen are being resolved urgently. As of yesterday, the board has received some 740 applications from

**Carwyn Jones:** O ran yr anifeiliaid a laddwyd, mae'r Epynt yn ardal heintus. Gwnaethpwyd y pwynt hwnnw sawl gwaith. Nid yw'n ymwneud â dod ag anifeiliaid i mewn i ardal lân. Mewn perthynas â Phenhesgyn, fel y gwyddoch, nid oedd unrhyw safle arall ar Ynys Môn. Naill ai cyflawnwyd y difa, neu ni chyflawnwyd y difa. Pe na chyflawnwyd y difa, byddai'r sefyllfa ar yr ynys yn drychinebus, mewn gwirionedd. Rhaid inni weithredu ar y sail o ddarganfod safleoedd y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn fodlon arnynt. O ran Penhesgyn, nid oedd y cyngor am inni ddefnyddio Penhesgyn yn wreiddiol ac, felly, Mona oedd yr unig safle. Yn dilyn hynny, newidiodd y cyngor ei feddwl ac yr oedd Penhesgyn ar gael. Y safle hwn oedd dewis cyntaf Asiantaeth yr Amgylchedd o'r cychwyn. Ar ôl bod ar Ynys Môn ac eistedd yn yr hyn a oedd bron yn gyfarfod llawn y cyngor ar ddydd Sul, nid oes gennyf unrhyw ddymuniad o gwbl i ymhel â gwleidyddiaeth yr ynys honno. Ar ddydd Sul, nid oedd y Prif Weinidog na minnau yn barod i gefnogi unrhyw du ar yr hyn sydd yn amlwg yn sefyllfa fywiog ar gyngor Ynys Môn.

O ran y bwrdd ymyrraeth, cafwyd anawsterau. Mae'r bwrdd yn gosod system ffôn newydd i leddfu anawsterau ffermwyr sydd yn gwneud ceisiadau. Caiff yr anawsterau a gododd eu datrys ar frys. Erbyn ddoe, yr oedd y bwrdd wedi derbyn rhyw 740 o geisiadau o Gymru. Cydnabuwyd y

Wales. The problems have been recognised, as I have said. They were raised with the Prime Minister and the board is now installing a new telephone system. A meeting will be held at Caernarfon on Saturday to deal with welfare issues and you will be invited to it, Peter. On movement licences, a disinfectant centre in Anglesey is to be welcomed. It is a matter for the Meat and Livestock Commission to license disinfecting centres and we have appealed many times for people to propose sites for disinfecting centres. The licensing of any new disinfecting centre is to be welcomed. If such centres can be set up, that is work well done by those involved. However, it is a matter for the council to find a site. I hope that one can be found and confirmed, but it would be unwise for anyone who is not a native of the island to get involved in its politics.

10:05 a.m.

The Caernarfon office is working flat out to get the welfare licences and all matters resolved. When I visited Caernarfon a week last Saturday, as you also did, Peter, it was clear that the office was working as if it were a weekday. If the work being done in Caernarfon needs to be speeded up, we will see what we can do. I have spoken to the Brigadier commanding the army in Wales and he wanted to make clear that the army cannot do everything. It has to be deployed and asked to undertake an action. Simply bringing in the army does not necessarily help unless it can be deployed properly and has an action to undertake. Giving operational control to the army has already been mooted elsewhere. The army has made clear that it does not want that. Others here will know who suggested that.

Finally, on insemination, I do not remember saying what you claim I said. However, you raise an important point about what needs to be done in this situation. I will take that up again this afternoon with the veterinary officers and we will see what can be done to progress matters.

**Mick Bates:** Thank you for your statement.

problemau, fel y dywedais. Fe'u codwyd gyda'r Prif Weinidog a bellach mae'r bwrdd yn gosod system ffôn newydd. Cynhelir cyfarfod yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn i ymdrin â materion lles ac fe'ch gwahoddir chi, Peter, i fod yn bresennol. O ran trwyddedau symud, croesewir canolfan ddiheintio ar Ynys Môn. Cyfrifoldeb y Comisiwn Cig a Da Byw yw trwyddedu canolfannau diheintio ac apeliasom sawl gwaith i bobl gynnig safleoedd ar gyfer canolfannau diheintio. Croesewir trwyddedu unrhyw ganolfan ddiheintio newydd. Pe gellid sefydlu canolfannau o'r fath, byddai hynny'n waith da gan y bobl a fydd yn gysylltiedig. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y cyngor yw dod o hyd i safle. Gobeithio y gellir canfod a chadarnhau safle, ond byddai'n annoeth i unrhyw un nad yw'n frodor o'r ynys i ymhel â'i gwleidyddiaeth.

Mae swyddfa Caernarfon yn gweithio'n ddi-baid i ddatrys y materion yn ymwneud â thrwyddedau lles a'r materion eraill. Pan ymwelais â Chaernarfon wythnos i ddydd Sadwrn diwethaf, fel y gwnaethoch chi hefyd, Peter, yr oedd yn amlwg bod y swyddfa'n gweithio fel pe bai'n ddiwrnod gwaith. Os bydd angen cyflymu'r gwaith yng Nghaernarfon, ystyriwn yr hyn y gallwn ei wneud. Siaradais â'r Brigadydd sydd yn rheoli'r fyddin yng Nghymru ac yr oedd am bwysleisio na all y fyddin wneud popeth. Rhaid ei threfnu a gofyn iddi ymgymryd â gweithrediad. Nid yw dod â'r fyddin i mewn ynddo'i hun yn helpu o reidrwydd oni ellir ei threfnu'n briodol a bod ganddo weithrediad i'w gyflawni. Crybwylwyd eisoes mewn mannau eraill y dylid rhoi rheolaeth weithrediadol i'r fyddin. Pwysleisiodd y fyddin nad oedd yn dymuno hynny. Bydd eraill yma yn gwybod pwy awgrymodd hynny.

Yn olaf, o ran semenu, ni chofiaf ddweud yr hyn a honnwyd gennych. Fodd bynnag, codwch bwynt pwysig ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud yn y sefyllfa hon. Trafodaf hynny unwaith eto y prynhawn yma gyda'r swyddogion milfeddygol a gwelwn beth y gellid ei wneud i ddatblygu'r materion.

**Mick Bates:** Diolch am eich datganiad. Yn

First, I pay tribute again to the efforts of everyone concerned: the veterinary service, the army and all those in the unions who have provided so much advice to people. I commend those who have established helplines so that a network of support exists for everyone who has suffered during this terrible crisis. Your primary aim is to defeat the disease and much effort has gone into that. However, other speakers have mentioned the terrible welfare situation that now exists on many farms because of the restrictions imposed to control the disease. Of those, the infected area has been mentioned. I was pleased to hear you talk of a re-examination of infected areas. I would like to hear more about the reduction of infected areas, because that would alleviate the massive problem of the inability of many farmers to sell livestock that is ready for sale.

That leads me to the issue of consequential loss. As you are aware, many of those producers have fed stock throughout this time. Those cattle have now exceeded 30 months and the lambs now have two teeth, which halves their value. What have you to say about providing consequential loss for those producers?

A greater and more urgent problem mentioned by other speakers, is that the intervention board cannot deal with the immense suffering that is taking place. I received a letter this morning from a producer in my constituency describing the heart-breaking circumstances that now exist on many farms. Having heard other speakers comment on this, you should now realise the urgency of it. Please answer these producers' pleas by arranging for the welfare disposal scheme to take place with the urgency applied to the removal of livestock for reasons of foot and mouth disease. The producer on the welfare disposal scheme also has a particular problem that I want you to solve. There is a flat-rate valuation scheme. As you are aware, on many of these farms, farmers have pedigree animals. Is it possible for those producers to have flat-rate valuation applied to most of their stock, but a separate valuation for stock that is worth far in excess of the agreed rates? If the Minister can answer these questions, he would alleviate

gyntaf, talaf deyrnged unwaith eto i ymdrechion pawb dan sylw: y gwasanaeth milfeddygol, y fyddin a'r holl bobl hynny yn yr undebau a ddarparodd gymaint o wybodaeth i bobl. Cymeradwyaf y rhai hynny a sefydloedd linellau cymorth er mwyn sicrhau rhwydwaith o gymorth i bawb a fu'n dioddef yn ystod yr argyfwng ofnadwy hwn. Eich prif nod yw gorchfgyu'r clwyf a rhoddwyd llawer o ymdrech i wneud hynny. Fodd bynnag, crybwylloedd siaradwyr eraill y sefyllfa les ofnadwy sydd bellach yn bodoli ar lawer o ffermydd o ganlyniad i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd i reoli'r clwyf. O'r rhai hynny, crybwyllywyd yr ardal heintus. Yr oeddwn yn falch i'ch clywed yn cyfeirio at ailarchwilio ardaloedd heintus. Hoffwn glywed mwy am leihau ardaloedd heintus, oherwydd byddai hynny'n lleddfu'r broblem enfawr o anallu llawer o ffermwyr i werthu da byw sydd yn barod i'w gwerthu.

Mae hwn yn fy arwain at fater colled ganlyniadol. Fel y gwyddoch, mae nifer o'r cynhyrchwyr hynny wedi bwydo stoc drwy gydol yr amser hwn. Bellach mae'r gwartheg hynny yn hŷn na 30 mis a bellach mae gan yr wyn ddaud ddant, sydd yn haneru eu gwerth. Beth sydd gennych i'w ddweud am ddarparu colled ganlyniadol i'r cynhyrchwyr hynny?

Problem fwy ac un bwysicach a grybwyllywyd gan siaradwyr eraill, yw'r ffaith na all y bwrdd ymyrraeth ymdrin â'r dioddefaint anhygoel a geir. Derbyniais lythyr y bore yma gan gynhyrchydd yn fy etholaeth yn disgrifio'r amgylchiadau torcalonnus a geir bellach ar lawer o ffermydd. Ar ôl clywed siaradwyr eraill yn rhoi eu safbwytiau ar hyn, dylech, erbyn hyn, sylweddoli ei bwysigrywyd. A wnewch chi ateb ymbiliau'r cynhyrchwyr hyn drwy drefnu y cynhelir y cynllun lles-gwaredu gyda'r un brys â gwaredu anifeiliaid yn sgîl clwy'r traed a'r genau. Yn ogystal, mae gan y cynhyrchydd ar y cynllun lles-gwaredu broblem arbennig yr wyf am ichi ei datrys. Ceir cynllun prisiad cyfradd unffurf. Fel y gwyddoch, ar nifer o'r ffermydd hyn, mae gan ffermwyr anifeiliaid pedigri. A yw'n bosibl i'r cynhyrchwyr hynny sicrhau y cymhwysir prisiad cyfradd unffurf i'r rhan fwyaf o'u hanifeiliaid, ond prisiad ar wahân ar gyfer anifeiliaid sydd werth mwy o lawer na'r cyfraddau cytûn? Os gall y Gweinidog ateb y cwestiynau hyn,

many of the problems that are driving producers to despair.

I will end on a positive note. In every one of my statements or questions on this issue I have asked for information, which you have stubbornly refused to provide to producers. I put on record my congratulations to the people in Montgomeryshire who worked together to produce a question and answer sheet to help producers in the area overcome many of their anxieties.

**Carwyn Jones:** Mick showed me that question and answer sheet yesterday, which he produced. The Assembly has set up an office in Montgomery town, which acts as a liaison point between the Assembly and the farming unions on the ground. We are providing information, including question and answer briefings, as I indicated to you yesterday.

I will take up your point about the flat-rate valuation scheme and the possibility of having a split valuation. The flat-rate valuation scheme applies in this matter but I will take up your point about pedigree animals and give you an answer. You reiterate the welfare situation, and I recognise, as I told Peter Rogers, that the situation is extremely difficult for many farmers.

Consequential loss is properly decided on an UK basis, as the Prime Minister stated strongly when he visited Usk.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** Diolchaf i chi, Carwyn, am eich ymwelliadau â Chaernarfon ac Ynys Môn i drafod effeithiau clwy'r traed a'r genau. Yr ydych yn ymwybodol o'i effaith ddifrifol ar yr ynys, nid yn unig ar y ffermwyr sydd wedi colli anifeiliaid a'r ffermwyr sydd o fewn yr ardal lle y mae cyfyngu ar symud, ond hefyd ar y diwydiant twristiaeth. Clywsoch hynny dros y penwythnos.

Cytunaf yn llwyr â'r siaradwyr a ddywedodd fod lles anifeiliaid yn un o'r materion sydd angen ei ddatrys yn fuan. Mae'r cynllun difa yn mynd rhagddo yn Ynys Môn a chaiff ei gwblhau yn fuan, ond mae problemau gwirioneddol o ran lles anifeiliaid i'r

byddai'n lleddfu nifer o'r problemau sydd yn llethu cynhyrchwyr ag anobaith.

Gorffennaf ar nodyn cadarnhaol. Ym mhob un o'm datganiadau neu gwestiynau ar y mater hwn gofynnais am wybodaeth, y gwrthodasoch yn ystyfnig ei darparu i gynhyrchwyr. Cofnodaf fy llonyfarchiadau i'r bobl yn Sir Drefaldwyn a weithiodd gyda'i gilydd i gynhyrchu taflen cwestiwn ac ateb i helpu cynhyrchwyr yn yr ardal i oresgyn nifer o'u pryderon.

**Carwyn Jones:** Dangosodd Mick y daflen cwestiwn ac ateb honno a gynhyrchwyd ganddo imi ddoe. Sefydlodd y Cynulliad swyddfa yn nhref Trefaldwyn, sydd yn gweithredu fel pwynt cyswilt rhwng y Cynulliad ac undebau ffermio ar lawr gwlad. Yr ydym yn darparu gwybodaeth, yn cynnwys briffiau cwestiwn ac ateb, fel y nodais ddoe.

Trafodaf eich pwynt am y cynllun prisiad cyfradd unffurf a'r posiblwydd o gael prisiad rhanedig. Mae'r cynllun prisiad cyfradd unffurf yn berthnasol i'r mater hwn ond trafodaf eich pwynt am anifeiliaid pedigree a rhoi ateb ichi. Ailadroddwch y sefyllfa les, a chydubyddaf, fel y dywedais wrth Peter Rogers, bod y sefyllfa yn ofnadwy o anodd i nifer o ffermwyr.

Penderfynir yn gywir ar golled ganlyniadol ar sail y DU, fel y datganodd y Prif Weinidog yn gryf pan ymwebdd â Brynbuga.

**The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** I thank you, Carwyn, for your visits to Caernarfon and Anglesey to discuss the effects of foot and mouth disease. You are aware of its grave effect on the island, not only on farmers who have lost stock and the farmers within the area of restricted movement, but also on the tourism industry. You heard that over the weekend.

I agree totally with the speakers who have said that animal welfare is one of the issues that need to be resolved soon. The cull is proceeding in Anglesey and will be completed soon, but there are real problems with animal welfare for farmers who are not

ffermwyr nad ydynt yn rhan o'r cynllun difa. Gobeithiaf y gallwch ymateb i bryder gwirioneddol ynghylch hynny.

Gwn y byddwch yn dysgu o'r hyn a ddigwyddodd o ran ystyried lleoliadau megis Penhesgyn, Mona ac Epynt. Mae'n hanfodol y rhoddir gwybodaeth gynnari'r gymuned leol ynghylch safleoedd posibl, yn hytrach na bod y penderfyniad yn taro'r gymuned fel boltt, sydd yn ei harwain i ymateb yn y ffordd a wnaed yn y dyddiau diwethaf, nid yn unig yn Epynt ond hefyd yn Ynys Môn.

Fe'ch atgoffaf, at bwrrpas y cofnod, nad Cyngor Sir Ynys Môn sydd yn berchen ar safle Penhesgyn, ond cwmni ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Penderfyniad y cwmni ydoedd yn wreiddiol i beidio â chaniatáu defnyddio Penhesgyn, nid penderfyniad y Cyngor ei hun. Mae'n bwysig cofnodi hynny. Mae'n bwysig i barhau â'r dialog gyda'r cymunedau lleol ac i sicrhau pan ofynnir cwestiynau diliys y rhoddir yr wybodaeth angenrheidiol cyn gynted ag y bo modd.

**Carwyn Jones:** Ynghylch eich pwyt am roi gwybodaeth gynnari'r gymuned leol ynghylch safleoedd posibl i gladdu anifeiliaid, mewn byd perffaith hoffem gysylltu ac ymgynghori, ond nid oes gennym lawer o amser. Yr ydym yn gwneud ein gorau er mwyn sicrhau bod pobl yn deall y ffeithiau. Nid yw ymgynghoriad llawn yn ymarferol ar hyn o bryd. Derbyniaf ei bod yn bwysig fod pobl yn cael gwybodaeth tra bo'r sefyllfa'n parhau. Dywedais wrth y bobl ym Mhenhesgyn a'r bobl sydd yn agos i'r Epynt y byddwn yn croesawu sefydlu pwylgor cyswllt â hwy ac â'r awdurdodau er mwyn i bobl wybod beth sydd yn digwydd. Mae'n holol naturiol bod pobl eisiau gwybod beth sydd yn digwydd—nid yw'r broses yn un gyfrinachol. Os oes gan bobl gwestiynau, felly, yr wyf yn ddigon hapus iddynt ddewis cynrychiolwyr a all ofyn cwestiynau i'r milfeddygon ac i Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn iddynt gael atebion. Mae'r drws ar agor ar gyfer hynny.

10:15 a.m.

Cwmni preifat sydd biau safle Penhesgyn. A private company owns the Penhesgyn site.

part of that cull. I hope that you can respond to the real concern about that.

I know that you will learn lessons from what has happened regarding considering locations such as Penhesgyn, Mona and Epynt. It is crucial that information regarding possible locations is disseminated early on within the local community, rather than the decision hitting the community like a bolt out of the blue, which leads them to respond in the way that they have done over the past few days, not only in Epynt but also in Anglesey.

I remind you, for the purpose of the record, that it is not the Isle of Anglesey County Council that owns the Penhesgyn site, but a joint company of Isle of Anglesey County Council and Gwynedd Council. It was the company's decision originally not to permit the use of Penhesgyn, not the decision of the Council itself. It is important to record that. It is important to continue the dialogue with the local communities and to ensure that when valid questions are asked, the necessary information is provided as soon as possible.

**Carwyn Jones:** With regard to your point that early information is disseminated within the local community regarding possible animal burial sites, in a perfect world we would want to contact and consult, but we do not have much time. We are doing our best to ensure that people understand the facts. Full consultation is not practical at the moment. I accept the importance of people being informed while the situation continues. I told people at Penhesgyn and people close to the Epynt that I would welcome establishing a liaison committee with them and with the authorities so that people know what is going on. It is quite natural that people want to know what is going on—it is not a confidential process. If people have questions, therefore, I am more than happy for them to choose representatives who can ask questions of the vets and the Environment Agency so that they can have answers. The door is open for that.

Nid oedd problem gan y cwmni ynglŷn â defnyddio'r safle. Nid oedd y cyngor eisiau inni ddefnyddio'r safle ar y dechrau, wedyn newidiodd ei feddwl. Nid wyf yn beirniadau'r cyngor am wneud hynny. Yr ydym eisiau cydweithio'n agos â'r cyngor. Dyna'r sefyllfa, ac yr ydym yn awr yn defnyddio'r safle, sef prif ddewis Asiantaeth yr Amgylchedd.

**Delyth Evans:** Oherwydd prinder amser, gofynnaf un cwestiwn penodol ynglŷn â'r sefyllfa ar fynydd Epynt. Mae pryderon y gallai'r haint ddianc o'r lorïau wrth iddynt ddringo'r rhiw serth at y safle. Pa sierwydd allwch chi ei roi na fydd hyn yn digwydd?

**Carwyn Jones:** Ni fydd unrhyw beth yn dianc o'r lorïau. Gallwn fod 100 y cant yn sier o hynny. Clywyd yr un ddadl pan oeddem yn symud cyrff o'r Gaerwen i Widnes. Yr oedd pobl yn dweud bryd hynny y byddai'r clwyf yn lledu ar hyd yr A55. Ni ddigwyddodd hynny. Ni all y lorïau adael y ffermydd nes bod y milfeddygon yn dweud bod y lori'n ddiogel. Caiff y lorïau eu profi er mwyn sicrhau nad oes unrhyw bosiblwrwydd i ddim byd ddianc ohonynt. Mae'r milfeddygon ac Asiantaeth yr Amgylchedd, felly, yn hapus bod y lorïau yn holol ddiogel.

**Rhodri Glyn Thomas:** Gofynnais gyfres o gwestiynau i chi ddoe, a chyflwynnais yr wybodaeth honno i Gyngor Sir Caerfyrddin ac i bobl yng Nghaerfyrddin. Mae gennys un cwestiwn penodol ynglŷn â'r Epynt. A allwch roi gwarant inni nad oes unrhyw fgythiad i'r ardal sydd yn glir yn Sir Gaerfyrddin oddi wrth y safle llosgi sydd o fewn 50 llath i'r ffin—sydd yn benderfyniad cwbl anghyfrifol—a'r safle claddu? Dylai bwletin gwybodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd fod wedi ei gyhoeddi yr wythnos diwethaf, a dylid fod wedi ymgynghori. Mae'n warthus nad oes ymgynghori. Derbyniaf fod yn rhaid inni gladdu a llosgi yn rhywle, ond a allwch roi gwarant o hynny i bobl Sir Gaerfyrddin sydd yn poeni'n ddybryd am y sefyllfa?

**Carwyn Jones:** Mae'n holol naturiol bod pobl yn poeni pan fo hyn yn digwydd. Ynglŷn â'r hyn a ddywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd a'r milfeddygon, yr wyf yn

The company did not have a problem with us using the site. The council did not want us to use the site at first, then it changed its mind. I do not criticise the council for doing that. We want to co-operate closely with the council. That is the situation, and we are now using the site, which was the Environment Agency's first choice.

**Delyth Evans:** Due to lack of time, I will ask one specific question about the situation on Epynt mountain. There are concerns that the disease could escape from the lorries as they climb the steep hill to the site. What assurance can you give that this will not happen?

**Carwyn Jones:** Nothing will escape from the lorries. We can be 100 per cent sure of that. The same argument was heard when we were moving carcasses from Gaerwen to Widnes. People said then that the disease would spread along the A55. That did not happen. The lorries cannot leave the farms until the vets say that they are safe. The lorries are tested to ensure that there is no possibility of anything escaping from them. The vets and the Environment Agency are happy, therefore, that the lorries are totally safe.

**Rhodri Glyn Thomas:** I asked you a series of questions yesterday, and I presented that information to Carmarthenshire County Council and to people in Carmarthen. I have one specific question about the Epynt. Can you give us an assurance that there is no threat to the clear area in Carmarthenshire from the incineration site, which is within 50 yards of the border—which is a totally irresponsible decision—and the burial site? The Environment Agency information bulletin should have been issued last week, and there should have been consultation. It is appalling that there is no consultation. I accept that we must bury and burn somewhere, but can you give the people of Carmarthenshire, who are deeply worried about the situation, that assurance?

**Carwyn Jones:** It is totally natural that people worry when this happens. Regarding what the Environment Agency and the vets have said, I am happy that there is no

hapus nad oes perygl sylweddol i'r clwyf ledu i Sir Gâr, nac i ardaloedd eraill. Nod y difa yw sicrhau bod y clwyf yn cael ei ladd. Pe baem yn lledu'r clwyf wrth fynd â chyrrff i lawr i'r Epynt, byddem yn ymladd yn ein herbyn ein hunain. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a'r milfeddygon wedi edrych ar y safle, ac maent yn hapus nad oes perygl sylweddol o gwbl.

**Kirsty Williams:** In expressing your regret, which we all share, of the injury to the police officer that occurred in the early hours of Sunday morning on Epynt, do you also regret the deplorable lack of consultation with the wider communities of Llywel, Senny Bridge, Crai and Trecastell? Do you also regret the failure to find a site for the disposal of carcasses from the Montgomeryshire area in Montgomeryshire itself? Do you also regret the deplorable lack of information that the Environment Agency has been able to supply to date? You mention early information—I was contacted by a farmer whose land is approximately 20 meters from a burning site. He has received no information about the consequences that this may or may not have for his stock. When I asked the Environment Agency to provide scientific information regarding the geology and the hydrology of the Epynt site, it was unable to do so. It had not conducted any scientific testing—

substantial risk of the disease spreading into Carmarthenshire, or into other areas. The aim of the cull is to ensure that the disease is eradicated. If we were to spread the disease as we take carcasses down to the Epynt, we would be fighting against ourselves. The Environment Agency and the vets have looked at the site, and they are happy that there is no substantial risk at all.

**Kirsty Williams:** Wrth fynegi eich bod yn gresynu, yr ydym oll yn rhannu hynny, ynglŷn â'r anaf i swyddog yr heddlu a ddigwyddodd yn ystod oriau cynnar fore Sul ar yr Epynt, a ydych hefyd yn gresynnu at y diffyg gwarthus mewn ymgynghori gyda chymunedau ehangach Llywel, Pont Senni, Crai a Threcastell? A ydych hefyd yn gresynnu'r methiant i ddod o hyd i safle ar gyfer gwaredu carcasau o ardal Sir Drefaldwyn yn Sir Drefaldwyn ei hun? A ydych hefyd yn gresynnu at y diffyg gwarthus mewn gwybodaeth a ddarparwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd hyd yn hyn? Crybwyllwch wybodaeth gynnar—cysylltodd ffermwyr â mi yr oedd ei dir tua 20 metr o safle llosgi. Ni dderbyniodd unrhyw wybodaeth ar yr effaith y gallai neu na allai ei gael ar ei anifeiliaid. Pan ofynnais i Asiantaeth yr Amgylchedd ddarparu gwybodaeth wyddonol yn ymneud â daeareg a hydroleg safle'r Epynt, ni allai wneud hynny. Ni chynhaliodd unrhyw brofion gwyddonol—

**The Presiding Officer:** Order. You are not the main speaker for the Liberal Democrats. I have called Mick Bates, and the other main speakers. Please confine yourself to one question.

**Kirsty Williams:** It was basing its information on having looked in the ground and dug a few holes.

**Carwyn Jones:** The Environment Agency has prepared a full brief. It is not true that it simply looked in the ground and dug a few holes. A full geological survey has been conducted in the area. Therefore, it is fully aware of the geology of the area. The Environment Agency's brief will be made available. As I have said many times, we have looked, and continue to look, at other areas of Powys. There is a full-time army

**Y Llywydd:** Trefn. Nid chi yw'r prif siaradwr ar gyfer y Democratiaid Rhyddfrydol. Galwais ar Mick Bates, a'r prif siaradwyr eraill. A wnewch chi gyfyngu eich hun i un cwestiwn.

**Kirsty Williams:** Yr oedd ei gwybodaeth yn seiliedig ar edrych yn y ddaear a phalu ambell i dwll.

**Carwyn Jones:** Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi paratoi briff llawn. Nid yw'n wir eu bod ond wedi edrych yn y ddaear a phalu ambell i dwll. Cynhalwyd arolwg daearegol llawn yn yr ardal. Felly, mae'n llwyr ymwybodol o ddaeareg yr ardal. Bydd briff Asiantaeth yr Amgylchedd ar gael. Fel y dywedais sawl gwaith, rydym wedi edrych, ac yn parhau i edrych, ar ardaloedd eraill ym Mhowys. Mae swyddog

officer who assesses other possible burial areas. He has not yet found an other area. I met Kirsty at the site on Saturday. She has conducted herself properly in representing her constituents and has a perfect right to do that. However, it is extremely unhelpful for the local Member of Parliament to tell residents at the site at Epynt that he and Powys County Council will find an alternative site by Monday. We have not heard anything since. That is not helpful.

**Nick Bourne:** Like Kirsty Williams and Rhodri Glyn Thomas, I am concerned about the lack of consultation on the Epynt site. I know that it is an infected area in the sense that Powys is an infected area. However, I hope that the Minister will clarify that there are no cases in the immediate vicinity of Epynt. That is what has caused the greatest concern. Although the site is less than a mile from the Carmarthenshire border, there was no consultation with officers or anyone else in that county. This is an object lesson in how not to identify a site. Will the Minister also comment on the fact that Southerndown golf club, in his constituency, is re-opening, against the wishes of many people who suspect it to be a danger?

**Carwyn Jones:** I declare an interest as my father is a member of Southerndown golf club. I have held discussions with the golf club. I firmly believe that, in the face of veterinary advice, while there is livestock on the course, it should not be opened. I have said that all along. If veterinary advice is that the course should remain closed, so be it. I say that with full expectation of domestic strife when I return home tonight.

It is not helpful that people such as Nick tell protesters at the Epynt site that this is a Lib Lab conspiracy.

**Nick Bourne:** I did not say that.

**Carwyn Jones:** I am only quoting what local people have told me. [CONSERVATIVE ASSEMBLY MEMBERS: ‘Answer the question.’]

**The Presiding Officer:** Order. The Minister

llawn amser o'r fyddin sydd yn asesu ardaloedd claddu posibl eraill. Nid yw wedi canfod ardal arall eto. Cyfarfum â Kirsty ar y safle ar ddydd Sadwrn. Bu'n ymddwyn yn briodol wrth gynrychioli ei hetholwyr ac mae ganddi berffaith hawl i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'n holol ddi-fudd i'r Aelod Seneddol lleol ddweud wrth drigolion ar y safle ar fynydd Epynt y bydd ef a Chyngor Sir Powys yn darganfod safle arall erbyn dydd Llun. Ni chlywsom unrhyw beth ers hynny. Nid yw hynny'n ddefnyddiol.

**Nick Bourne:** Fel Kirsty Williams a Rhodri Glyn Thomas, yr wyf yn bryderus ynglŷn â diffyg ymgynghori a fu ar safle'r Epynt. Gwn ei bod yn ardal heintus yn yr ystyr bod Powys yn ardal heintus. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn egluro na cheir unrhyw achosion yng nghyffiniau'r Epynt. Dyma'r hyn a achosodd y pryder mwyaf. Er bod y safle yn llai na milltir o ffin Sir Gaerfyrddin, nid ymgynghorwyd â swyddogion neu ag unrhyw un arall yn y sir honno. Mae hon yn engraifft dda o sut i beidio â nodi safle. A wnaiff y Gweinidog wneud sylwadau hefyd ar y ffaith bod clwb golff Southerndown, yn ei etholaeth, yn ailagor, yn erbyn dymuniadau llawer o bobl sydd yn amau ei fod yn beryglus?

**Carwyn Jones:** Datganaf ddiddordeb gan fod fy nhad yn aelod o glwb golff Southerndown. Cynhaliais drafodaethau gyda'r clwb golff. Credaf yn gryf, yn wyneb cyngor milfeddygol, tra bod da byw ar y cwrs, na ddylid ei agor. Dywedais hynny o'r cychwyn. Os dywed cyngor milfeddygol na ddylid agor y cwrs, bydded felly. Dywedaf hynny gan lawn ddisgwyl anghyd fod teuluol pan ddychwelaf adref heno.

Nid yw'n ddefnyddiol bod pobl fel Nick yn dweud wrth y protestwyr ar safle'r Epynt bod hwn yn gynllwyn rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Lafur.

**Nick Bourne:** Ni ddywedais hynny.

**Carwyn Jones:** Dim ond dyfynnu'r hyn a ddywedodd y bobl leol wrthyf yr wyf. [AELODAU CEIDWADOL O'R CYNULLIAD: ‘Atebwch y cwestiwn.’]

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'r Gweinidog yn ateb

is answering the question asked by the Leader of the Welsh Conservatives.

**Carwyn Jones:** I know that there is a general election pending, but it is important that all Members are responsible.

### **Datganiad ar Asesiadau Fferm Gyfan o Indrawn a Addaswyd yn Enetig Statement on Farm-scale Evaluation of Genetically Modified Maize**

**The Minister for Rural Affairs (Carwyn Jones):** Late on Tuesday, 3 April, the Department of the Environment, Transport and the Regions published the locations of the sites in England and Wales where genetically modified maize is set to be planted this spring as part of the programme of farm-scale evaluations of genetically modified crops. In light of the Assembly's stated policy of opposition to GM trialling in Wales, I was disappointed to note that three of the proposed sites are in Wales; one in Sealand in Flintshire and the other two in Mathry in Pembrokeshire. Details of these, together with six-figure grid references for all 28 sites, are available on the DETR's website. The crop to be grown has marketing consent from the European Union under part C of European Directive 90/220. The United Kingdom Government, via DETR, will now write to parish and community councils in whose areas the sites are located to explain the nature and the purpose of the farm-scale evaluations.

DETR is the lead UK department for the programme of farm-scale evaluations. It is responsible for implementing the provisions of the relevant European directives in the UK. That being the case, and knowing that the part C trial announcement was imminent, I wrote to Michael Meacher MP on 23 March setting out my concerns about the potential impact of the GM trials on non-GM production—on organic production in particular—in Wales. I stated that, should trial sites in Wales be announced, I would ask the Advisory Committee on Releases to the Environment to conduct a full scientific assessment before planting went ahead. I also stated that, if my concerns were not satisfied,

y cwestiwn a ofynnwyd gan Arweinydd Ceidwadwyr Cymru.

**Carwyn Jones:** Gwn fod etholiad cyffredinol ar y gorwel, ond mae'n bwysig bod yr holl Aelodau'n ymddwyn yn gyfrifol.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Yn hwyr ddydd Mawrth, 3 Ebrill, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau leoliadau'r safleoedd yng Nghymru a Lloegr lle y bwriedir plannu indrawn a addaswyd yn enetig y gwanwyn hwn fel rhan o raglen asesiadau fferm gyfan o gnydau a addaswyd yn enetig. O ystyried y polisi gwrthwynebu a nodwyd gan y Cynulliad i dreialu cnydau wedi'u haddasu'n enetig yng Nghymru, yr oeddwn yn siomedig i nodi bod tri o'r safleoedd arfaethedig yng Nghymru; un yn Sealand yn Sir y Fflint a'r ddau arall ym Mathry yn Sir Benfro. Mae manylion y rhain, a chyfeiriadau grid chwe ffigur ar gyfer pob un o'r 28 safle, ar gael ar wefan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Mae gan y cnwd y bwriedir ei dyfu ganiatâd marchnata yr Undeb Ewropeaidd o dan ran C Cyfarwyddeb Ewropeaidd 90/220. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, drwy Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, yn awr yn ysgrifennu at gynghorau plwyf a chynghorau cymuned yn yr ardaloedd lle lleolir y safleoedd i esbonio natur a phwrpas asesiadau fferm gyfan.

Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yw prif adran y DU ar gyfer y rhaglen asesiadau fferm gyfan. Mae'n gyfrifol am weithredu darpariaethau'r cyfarwyddebau Ewropeaidd perthnasol yn y DU. O ystyried hynny, a chan wybod fod y datganiad treial rhan C yn yr arfaeth, ysgrifennais at Michael Meacher AS ar 23 Mawrth yn nodi fy mhryderon am effaith bosibl y treialon cnydau wedi'u haddasu'n enetig ar gynhyrchu cnydau heb eu haddasu'n enetig—ar gynhyrchu organig yn arbennig—yng Nghymru. Nodais, pe cyhoeddir safleoedd treialon yng Nghymru, y byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd gynnal asesiad

I would consider whether it would be appropriate to exercise my powers under Section 110 of the Environmental Protection Act 1990 to issue an environmental prohibition notice. I have also expressed these concerns to the industry body, SCIMAC—the Supply Chain Initiative on Modified Agricultural Crops. In response to the announcement of the trial sites, my officials have asked ACRE—the Advisory Committee on Releases to the Environment—to undertake a full scientific assessment of these sites prior to planting going ahead.

10:25 a.m.

**Richard Edwards:** Your statement has preempted my urgent question on the matter as the local Assembly Member for Mathry. I also welcome the actions that you propose. Do you agree that there are two crucial broad issues in this sorry mess? The first is the environmental and health issue, and I speak as chair of the Environment, Planning and Transport Committee as well as the local Assembly Member. These trials are due to start before the end of the month for goodness sake. What possible time is there for a proper environmental impact assessment? I welcome your commitment to ensure that that will happen. The sites are on the doorstep of the Pembrokeshire National Park, which is a precious haven for wildlife and biodiversity. The sites are also in close proximity to organic farms. You mentioned your concern about the dangers of cross-pollination. I hear the UK Environment Minister talking about a green, clean organic future, except in north Pembrokeshire it seems. These trials will blight organic farming in Pembrokeshire. Given the crisis in agriculture, organic farming may be the only viable future for many people. Do you not think that there is something obscene about Government scientists, in the middle of a foot and mouth disease epidemic, parading about north Pembrokeshire for the benefit of a greedy, multi-national corporation to the detriment of the local people, the local economy and the local environment?

Do you agree that the second broad issue is a

gwyddonol llawn cyn i'r plannu fynd rhagddo. Nodais hefyd, oni fodlonir fy mhryderon, y byddwn yn ystyried pa un a fyddai'n briodol defnyddio fy mhwerau o dan Adran 110 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i gyhoeddi hysbysiad gwaharddiad amgylcheddol. Yr wyf hefyd wedi lleisia'r pryderon hyn i gorff y diwydiant, SCIMAC—sef Menter y Gadwyn Gyflenwi ar Gnydau Amaethyddol wedi'u Haddasu. Mewn ymateb i'r cyhoeddiad am y safleoedd treialu, gofynnodd fy swyddogion i'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd gynnal asesiad gwyddonol llawn o'r safleoedd hyn cyn i'r plannu fynd rhagddo.

**Richard Edwards:** Mae eich datganiad wedi rhagflaenu fy nghwestiwn brys ar y mater fel Aelod lleol o'r Cynulliad dros Mathry. Croesawaf innau hefyd y camau a gynigiwch. A gytunwch fod dau fater cyffredinol holl bwysig yn perthyn i'r achos truenus hwn? Y cyntaf yw'r mater amgylcheddol ac iechyd, a siaradaf fel cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn ogystal ag Aelod lleol o'r Cynulliad. Bwriedir i'r treialon hyn ddechrau cyn diwedd y mis er mwyn dyn. O ble y daw'r amser ar gyfer asesiad priodol o effaith amgylcheddol? Croesawaf eich ymrwymiad i sicrhau y bydd hynny'n digwydd. Mae'r safleoedd ar garreg drws Parc Cenedlaethol Sir Benfro, sydd yn noddfa werthfawr i fywyd gwylt a bioamrywiaeth. Mae'r safleoedd hefyd yn agos at ffermydd organig. Soniasoch am eich pryder ynghylch peryglon traws-beillio. Clywaf Weinidog dros yr Amgylchedd y DU yn sôn am ddyfodol gwyrdd, glân, organig ac eithrio gogledd Sir Benfro yn ôl pob golwg. Bydd y treialon hyn yn difetha ffermio organig yn Sir Benfro. O ystyried yr argyfwng mewn amaeth, efallai mai ffermio organig fydd yr unig ddyfodol dilys i lawer o bobl. Oni chredwch bod rhywbeth anweddus am wyddonwyr y Llywodraeth sydd, yng nghanol epidemig clwy'r traed a'r genau, yn gorymdeithio drwy ogledd Sir Benfro er budd corfforaeth farus, aml-wladol ar draul y bobl leol, yr economi leol a'r amgylchedd lleol?

A gytunwch fod yr ail fater cyffredinol yn

constitutional issue? Who does the DETR think it is acting in such an arrogant and contemptuous way? Has it forgotten that the Assembly has a GM free policy? Does it even care? Or is it just sticking two fingers up at us? Is the concordat we have with it worth the paper on which it is written? I am not surprised that the Tories are silent at present, because the landowner in question is the ex-loony right Tory MP, Tony Marlow. The DETR is behaving insensitively, irresponsibly and contemptuously. My office has been deluged with protests from constituents, and I fully sympathise with them. The Assembly's credibility is on the line. I ask you and the First Minister to get a grip. In addition to the proposals that you indicated, perhaps the Joint Ministerial Committee could be an appropriate avenue for resolving disputes between the UK Government and the devolved administrations. This is just not on. We must sort the DETR out, and we need to do so urgently.

**Carwyn Jones:** You are right to point out, Richard, that the scheduled start of the trials—as I understand it—is at the end of the month. However, it is important—in my view, and in the Assembly's view—that the full scientific evaluation has priority. If that is the case and if the planting time has to be put back, then so be it. We understand that we have legal powers in this matter, and we are investigating whether they should be used. At present, we are asking for a full scientific assessment. If the answer is no, we will take matters further.

With regard to your point about organic production, around 8,000 hectares of land is in organic production in Pembrokeshire and Carmarthenshire. Since learning that these sites had been identified—which was the beginning of the week—we have considered the situation. We have detailed site locations and we have identified 10 holdings in conversion or in full organic production within six miles of the trial sites. That is significant because six miles is the distance within which the Soil Association will make random checks to ensure organic production

fater cyfansoddiadol? Pwy yw Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau i weithredu mewn modd mor drahaus a dirmygus? A yw wedi anghofio bod gan y Cynulliad bolisi o sicrhau bod Cymru'n rhydd o gnydau wedi'u haddasu'n enetig? A oes ots ganddo hyd yn oed? Neu ai dim ond codi dau fys arnom y mae? A oes unrhyw werth i'r concordat sydd gennym ag ef? Ni synnaf fod y Toriaid yn dawel ar hyn o bryd, gan mai'r tirfeddiannwr dan sylw yw'r cyn AS Toriaidd ar y dde eithafol, Tony Marlow. Mae Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn ymddwyn yn ansensitif, yn anghyfrifol ac yn ddirmygus. Derbyniodd fy swyddfa lif o brotestiadau gan etholwyr, a chydymdeimlaf yn llawn â hwy. Mae hygrededd y Cynulliad yn y fantol. Gofynnaf ichi a Phrif Weinidog Cymru fynd i'r afael â'r mater. Yn ogystal â'r cynigion a nodwyd gennych, efallai y byddai Cydbwyllgor y Gweinidogion yn gyfrwng priodol i ddatrys anghydfodau rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd. Nid yw hyn yn dderbyniol. Rhaid inni roi Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn ei lle, a rhaid inni wneud hynny ar frys.

**Carwyn Jones:** Yr ydych yn iawn, Richard, i nodi mai ar ddiwedd y mis—fel y deallaf i—y bwriedir cychwyn y treialon. Fodd bynnag, mae'n bwysig—yn fy marn i, ac ym marn y Cynulliad—y rhoddir blaenoriaeth i'r asesiad gwyddonol llawn. Os mai dyna'r achos ac os oes rhaid gohirio'r amser plannu, dyna fydd rhaid ei wneud. Deallwn fod gennym bwerau cyfreithiol yn y mater hwn, ac yr ydym yn archwilio a ddylid eu defnyddio. Ar hyn o bryd, gofynnwn am asesiad gwyddonol llawn. Os mai na yw'r ateb, byddwn yn mynd â materion ymhellach.

O ran eich pwynt am gynhyrchu organig, defnyddir tua 8,000 hectar o dir ar gyfer cynhyrchu'n organig yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Ers dysgu bod y safleoedd hyn wedi'u nodi—ar ddechrau'r wythnos—yr ydym wedi ystyried y sefyllfa. Mae gennym leoliadau safle manwl ac yr ydym wedi nodi 10 o ddaliadau sydd yn cael eu trawsnewid neu sydd â chynhyrchiant organig llawn o fewn chwe milltir o safleoedd y treialon. Mae hynny'n arwyddocaol oherwydd o fewn pellter o chwe milltir y bydd y Gymdeithas Bridd yn gwneud archwiliadau ar hap i

is not contaminated with GM organisms, which would be of concern.

**Nick Bourne:** Richard Edwards covered the policy side well. It was a cogent argument, but he unfortunately spoilt it with a wild rhetorical, pre-election flourish. The regrettable element here is the framework. It is a framework that is allowing two farmers—not just one, in any event—to go in for these GM trials. I will concentrate on the constitutional aspect. The Assembly has expressed its view on the policy issue. In fact, it was a Welsh Conservative motion that initially proposed a GM free Wales, and I am proud of that. However, on the constitutional issue, Minister, in a letter to the chairman of the Agriculture and Rural Affairs Committee, Glyn Davies, you stated that you were concerned about aspects of the farm scale evaluations and that you had intended to raise them at a meeting scheduled for 22 March. What did you know on 22 March? Did you know of the likelihood of trials in Wales and why was that information not shared at an earlier stage? We know that the First Minister only learned of this on Tuesday afternoon because he raised it at the European Affairs Committee yesterday. We know that the Deputy First Minister and Minister for Economic Development—although, presumably, he did know about it yesterday—did not raise the issue with Michael Meacher MP, although he met him yesterday. That is staggering. I know that the Deputy First Minister and Minister for Economic Development is an important man, but you would have thought that it would have registered on his radar that it was an important issue to raise with Michael Meacher yesterday. It is regrettable that that did not happen.

**Jenny Randerson:** It is just jealousy.

**Nick Bourne:** I would have raised it with Michael Meacher had I been there.

**The Presiding Officer:** Order. The Leader of the Welsh Conservatives is asking an intelligent question in an intelligent way, and

sicrhau na chaiff cynhyrchu organig ei ddifwyno ag organebau wedi'u haddasu'n enetig, a fyddai o bryder.

**Nick Bourne:** Cwmpasodd Richard Edwards yr ochr bolisi yn dda. Yr oedd yn ddadl argyhoeddiadol, ond yn anffodus cafodd ei ddifetha ganddo gyda thro rhethregol, cynetholiad. Yr elfen anffodus yma yw'r fframwaith. Mae'n fframwaith sydd yn caniatáu i ddau ffermwyr—nid dim ond un, mewn unrhyw achos—i wifoddoli ar gyfer y treialon cnydau wedi'u haddasu'n enetig hyn. Byddaf yn canolbwytio ar yr agwedd gyfansoddiadol. Mae'r Cynulliad wedi lleisiai ei farn ar y mater polisi. Yn wir, cynnig gan Geidwadwyr Cymru a gynigiodd Cymru sydd yn rhydd o gnydau wedi'u haddasu'n enetig yn y lle cyntaf, ac yr wyf yn falch o hynny. Fodd bynnag, ar y mater cyfansoddiadol, Weinidog, mewn llythyr i gadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, Glyn Davies, nodasoch eich bod yn pryderu am agweddau ar yr asesiadau fferm gyfan a'ch bod wedi bwriadu eu codi mewn cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 22 Mawrth. Beth oeddech chi'n ei wybod ar 22 Mawrth? A wyddech am debygolrwydd cynnal treialon yng Nghymru a pham na rannwyd yr wybodaeth honno yn gynharach? Gwyddom mai dim ond brynhawn ddydd Mawrth y daeth Prif Weinidog Cymru i wybod am hyn oherwydd cododd y mater yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ddoe. Gwyddom na chododd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y mater—er, yn ôl pob tebyg, na wyddai amdano ddoe—gyda Michael Meacher AS, er iddo gwrdd ag ef ddoe. Mae hynny'n anhygoel. Gwn fod y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn wr pwysig, ond byddech wedi meddwl y byddai ei radar wedi nodi ei fod yn fater pwysig i'w godi â Michael Meacher ddoe. Mae'n drueni na ddigwyddodd hynny.

**Jenny Randerson:** Dim ond cenfigen yw hynny.

**Nick Bourne:** Byddwn i wedi ei godi â Michael Meacher pe byddwn wedi bod yno.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae Arweinwyr Ceidwadwyr Cymru'n gofyn cwestiwn deallus mewn ffordd ddeallus, a dylid

he should be allowed to continue.

I turn to the post-construction operational phase. The Wales Millennium Centre is not only about delivering a landmark building to time and within budget, it must also operate successfully, both culturally and financially. Delivering the plan will be challenging. In the past, the board has taken the view that the centre will operate without public subsidy. However, we cannot take that assessment at face value. We commissioned PriceWaterhouseCoopers to review the plan and a summary will be made available once the commercially sensitive issues have been dealt with and any other matters resolved. You will be aware of the recent Culture Committee debate when the Wales Millennium Centre was questioned on the business case. The Committee was robust and tenacious in its approach and helped to highlight just how challenging achieving the business plan is, as well as several operational issues that still do not appear to have been fully resolved.

Therefore, there remain real concerns. Can the centre sustain over 400,000 theatre attendances annually? Are the occupancy rates of 70 per cent for 300 performances every year achievable? Will a further 350,000 people visit the centre as projected? If audience numbers fail to match expectations, the centre will immediately run into a deficit. The Wales Millennium Centre has acknowledged this indirectly by indicating that a programme of national and international quality would require public subsidy of £750,000 annually.

The Arts Council of Wales suggests that

Mae'r papur yn tynnu sylw at un mater technegol, sef y dyfarniad rhwng Canolfan Mileniwm Cymru ac AMEC. O gymryd y byddai'r prosiect yn parhau ar y sail a amlinellir heddiw yna rhaid i'r cais dyledus—tua £900,000 gyda galw tymor byr o £180,000—gael ei dalu. Yn fy marn i Canolfan Mileniwm Cymru ddylai ysgwyddo'r gost, ond nid o'r arian cyhoeddus a fuddsoddwyd ynddi, er y gellid cael gofyniad ar gyfer rhai trefniadau pontio yn y tymor byr.

Trof at y cyfnod gweithredol ôl-adeiladu. Nid cyflwyno adeilad tirnod ar amser ac o fewn cyllideb yw unig nod Canolfan Mileniwm Cymru. Rhaid iddi weithredu'n llwyddiannus hefyd, yn ddiwylliannol ac yn ariannol. Bydd cyflwyno'r cynllun yn her. Yn y gorffennol, coleddodd y bwrdd y farn y bydd y ganolfan yn gweithredu heb gymhorthdal cyhoeddus. Fodd bynnag, ni allwn dderbyn yr asesiad hwnnw heb ei gwestiynu. Comisiynwyd PriceWaterhouseCoopers gennym i adolygu'r cynllun a bydd crynodeb ar gael unwaith yr ymdrinnir â'r materion sydd yn fasnachol sensitif ac unwaith y caiff unrhyw faterion eraill eu datrys. Byddwch yn ymwybodol o ddadl ddiweddar y Pwyllgor Diwylliant pan holwyd Canolfan Mileniwm Cymru am yr achos busnes. Yr oedd y Pwyllgor yn gadarn a dygn yn ei ymagwedd a helpodd i bwysleisio pa mor anodd yw cyflawni'r cynllun busnes, yn ogystal â sawl mater gweithredol nad ydynt, yn ôl pob tebyg, wedi eu datrys eto.

Felly, erys pryderon gwirioneddol. A all y ganolfan gynnal mwy na 400,000 o bobl yn dod i'r theatr bob blwyddyn? A yw'r cyfraddau presenoldeb o 70 y cant ar gyfer 300 o berfformiadau bob blwyddyn yn gyraeddadwy? A fydd 350,000 arall o bobl yn ymweld â'r ganolfan fel y rhagwelwyd? Os na fydd nifer y cynulleidfa oedd yn cyfateb â disgwyliadau, bydd y ganolfan yn wynebu diffyg ar unwaith. Mae Canolfan Mileniwm Cymru wedi cydnabod hyn yn anuniongyrchol drwy nodi y byddai rhaglen o ansawdd cenedlaethol a rhyngwladol yn galw am gymhorthdal cyhoeddus o £750,000 y flwyddyn.

Awgryma Cyngor Celfyddydau Cymru y

support amounting to some £800,000 will be needed. The council does not have the resources to provide for this, therefore, the Assembly would have to find the additional funds. In addition, provision for the ongoing maintenance appears low and to establish a realistic fund could cost a further £0.5 million per year. It is also worth noting that if audience numbers fell below expectations the centre would lose income. If corrective action was not successful that could become a recurrent problem.

We must take account of the reasonable desires of artists across Wales to contribute to the success of the centre and to grow and flourish where they are, which means that we must consider increased provision for the arts elsewhere in Wales. The Wales Millennium Centre cannot be allowed to operate at their expense—it will need their product.

We must give the centre a genuine chance to succeed. Therefore, we must also be realistic about the potential call on us for revenue funding over the years ahead. Taking all these issues together, we must be prepared to contemplate a revenue cost of around £3 million to go directly to the Wales Millennium Centre and a broadly equivalent sum to cover the complementary implications elsewhere. To enable the project to go ahead, and to consider the impact of the Wales Millennium Centre more widely, the Subject Committee will be invited to consider the assessment of the level of risk on revenue subsidy and to be reassured that it makes reasonable sense. David Rowe-Beddoe will want to keep the Subject Committee informed about the steps that he will be taking to re-base the project.

In summary, and in principle, we can give the green light to the project provided that it meets the following tests: the procurement method must, and now will, rest on a fixed-priced contract. The project may proceed provided that the price, post tender, does not take us beyond the £92 million cost envelope. The Assembly must have David Rowe-Beddoe's assurance that the board and executive will be well equipped to tackle the next phase of the project, and that the

bydd angen tua £800,000. Nid oes gan y cyngor yr adnoddau i ddarparu ar gyfer hyn, felly, byddai'n rhaid i'r Cynulliad ddod o hyd i'r arian ychwanegol. Yn ogystal, ymddengys mai prin yw'r ddarpariaeth, ar gyfer y gwaith cynnal a chadw parhaus a gallai sefydlu cronfa realistig gostio £0.5 miliwn arall y flwyddyn. Mae hefyd yn werth nodi y byddai'r ganolfan yn colli incwm pe bai nifer y cynulleidfaedd yn is na'r disgwyl. Os na fyddai'r camau a gymerir i unioni hyn yn llwyddiannus gallai hynny fynd yn broblem reolaidd.

Rhaid inni ystyried dymuniadau rhesymol artistiaid ledled Cymru i gyfrannu at lwyddiant y ganolfan ac i dyfu a ffynnu lle bynnag y bônt, sydd yn golygu bod yn rhaid inni ystyried darpariaeth gynyddol ar gyfer y celfyddydau mewn rhannau eraill o Gymru. Ni ellir caniatáu i Ganolfan Mileniwm Cymru weithredu ar eu traul hwy—bydd angen eu cynrych arni.

Rhaid inni roi cyfle gwirioneddol i'r ganolfan lwyddo. Felly, rhaid inni fod yn realistig hefyd ynglŷn â'r galw posibl arnom am arian refeniw yn y blynnyddoedd i ddod. Wrth ystyried yr holl faterion hyn gyda'i gilydd, rhaid inni fod yn barod i ystyried cost refeniw o tua £3 miliwn i fynd yn uniongyrchol i Ganolfan Mileniwm Cymru a swm cyfatebol fwy neu lai i dalu'r goblygiadau ategol mewn mannau eraill. Er mwyn galluogi'r prosiect i fynd yn ei flaen, ac i ystyried effaith Canolfan Mileniwm Cymru mewn cyddestun ehangach, gwahoddir y Pwyllgor Pwnc i ystyried asesu lefel y risg ar arian refeniw ac i'w sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr rhesymol. Bydd David Rowe-Beddoe eisiau hysbysu'r Pwyllgor Pwnc yn rheolaidd o'r camau y bydd yn eu cymryd i roi sail newydd i'r prosiect.

Wrth grynhau, ac mewn egwyddor, gallwn roi rhwydd hynt i'r prosiect ar yr amod ei fod yn bodloni'r amodau canlynol: rhaid i'r dull caffael, ac fe fydd yn awr, ddibynnu ar gontact pris sefydlog. Gall y prosiect fynd yn ei flaen ar yr amod nad yw'r pris, ar ôl tendro, yn mynd â ni tu hwnt i'r trothwy o £92 miliwn. Rhaid i'r Cynulliad gael sicrwydd gan David Rowe-Beddoe y bydd y bwrdd a'r gweithgor mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â cham nesaf y prosiect, ac y

building sub-committee is given the capacity to tackle the task fully. That is important. The Subject Committee must take stock of and be reassured by the business plan and by the extent to which it can be reasonably expected that the operational phase can be accommodated within the annual amount of £2 million should the centre fail to deliver on its ambition to operate without public subsidy. The Committee must also be reassured that support of a broadly similar order for associated artistic activity elsewhere in Wales is realistic.

Given the necessary continuation funding for the project through the summer, it will be ready to go ahead provided that these conditions are met. There is every reason to think that they will be. However, if any of those conditions are not met, the project must inevitably fall. They will have to be met simultaneously before the autumn. There is no case for incurring substantial extra preparatory support costs for the Wales Millennium Centre once the result of the fixed price invitation is known. The Government of the Assembly will not support this project unless the financial tests that I have identified are passed. The tests must be passed for us to fulfil our obligations as a Government. However, there are also political tests. This project seeks to benefit all interests—cultural, economic and social—and all parts of Wales. It will only go ahead if there is support in all political parties and in all parts of Wales. Ultimately, it is right that Members vote on a motion to support this project. When that happens, the Government of the Assembly will not be looking for a bare majority, but for support in every party and from all parts of Wales.

The approach that we commend to you rests on a candid assessment of the realities facing us. It is also based on a determination to be clear-sighted about the overall project costs and about the remaining tests that the project should meet if we are to be confident about it going ahead. Those same tests rest on a farsighted appreciation of the project's potential for Wales, which could be part of Wales's definition of itself—confident of our cultural identity, by not only investing in a building, but in our people's ability to express

rhoddir yr awdurdod i'r is-bwyllgor adeiladu fynd i'r afael â'r dasg yn llwyr. Mae hynny'n bwysig. Rhaid i'r Pwyllgor Pwnc roi ystyriaeth i'r cynllun busnes a rhaid i'r cynllun busnes a'r graddau y gellir yn rhesymol ddisgwyl i'r cam gweithredol gael ei gynnwys o fewn y swm blynnyddol o £2 filiwn pe bai'r ganolfan yn methu â chyflawni ei huchelgais i weithredu heb nawdd cyhoeddus roi tawelwch meddwl i'r Pwyllgor hefyd. Rhaid i'r Pwyllgor hefyd gael ei sicrhau bod cefnogi gorchymyn eithaf tebyg am weithgaredd artistig cysylltiedig mewn rhannau eraill o Gymru yn realistig.

O gofio'r arian parhad angenheidiol ar gyfer y prosiect drwy gydol yr haf, bydd yn barod i fynd ymlaen ar yr amod y bodlonir yr amodau hyn. Mae pob rheswm i gredu y cânt eu bodloni. Fodd bynnag, os na fodlonir unrhyw un o'r amodau hyn, bydd y prosiect yn anochel yn methu. Bydd yn rhaid eu bodloni ar yr un pryd cyn yr Hydref. Nid oes unrhyw ddadl dros fynd i gostau cynnal rhagbaratoi ychwanegol sylweddol ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru unwaith y bydd canlyniad y gwahoddiad pris sefydlog yn hysbys. Ni fydd Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r prosiect hwn oni fodlonir yr amodau ariannol a nodais. Rhaid i'r amodau gael eu bodloni er mwyn inni gyflawni ein rhwymedigaethau fel Llywodraeth. Fodd bynnag, mae amodau gwleidyddol hefyd. Mae'r prosiect hwn yn ceisio bod o fudd i bawb sydd â diddordeb—diwylliannol, economaidd a chymdeithasol—ac i bob rhan o Gymru. Yn y pen draw, mae'n iawn bod yr Aelodau yn pleidleisio ar gynnig i gefnogi'r prosiect hwn. Pan ddigwydd hynny, ni fydd Llywodraeth y Cynulliad yn edrych am y lleiafrif lleiaf, ond am gefnogaeth ym mhob plaid ac i bob rhan o Gymru.

Mae'r ymagwedd a gymeradwywn ichi yn dibynnu ar asesiad diduedd o'r gwirioneddau sydd yn ein hwynebu. Mae hefyd yn seiliedig ar benderfyniad i fod yn graff ynglŷn â chostau cyffredinol y prosiect ac ynglŷn â'r amodau sydd yn weddill y dylai'r prosiect eu bodloni os ydym i fod yn hyderus ynglŷn â mynd ymlaen â'r prosiect. Mae'r un amodau hynny yn dibynnu ar werthfawrogiad pellgyrhaeddol o botensial y prosiect i Gymru, a allai fod yn rhan o ddiffiniad Cymru ei hun—hyder yn ein hunaniaeth

themselves on a world stage. The benefits of this project are substantial. However, this Assembly has a responsible Government that is determined to control the costs. This statement has established the financial and political tests that this project must meet if it is to go ahead. The project deserves the chance to pass these tests.

ddiwyliau, drwy fuddsoddi nid yn unig mewn adeilad, ond yng ngallu pobl i fynegi eu hunain ar lwyfan y byd. Mae buddiannau'r prosiect hwn yn sylweddol. Fodd bynnag, mae gan y Cynulliad hwn Lywodraeth gyfrifol sydd yn benderfynol o reoli'r costau. Mae'r datganiad hwn wedi sefydlu'r amodau ariannol a gwleidyddol y mae'n rhaid i'r prosiect hwn eu bodloni os yw i fynd yn ei flaen. Mae'r prosiect yn haeddu'r cyfle i fodloni'r amodau hyn.

**Owen John Thomas:** Yr wyf wedi cefnogi prosiect Canolfan y Mileniwm o'r dechrau, ond gwerthfawrogaf gymhlethdod menter sydd yn disgwyl denu 0.75 miliwn o bobl y flwyddyn i'w gwahanol weithgareddau. Sylweddolaf hefyd mor anodd yw bod yn sicr am gost datblygiad mor fawr, yn enwedig mewn oes lle y mae etifeddiaeth Thatcher yn parhau i wneud gwariant cyhoeddus yn bechod yn hytrach na rhinwedd. Fodd bynnag, o glywed datganiad y Gweinidog, mae wedi llwyddo i gadw'r prosiect ar y cledrau trwy ystyried ei agweddau pendant ac ansicr yn ogystal â'r senarios gorau a gwaethaf o ran cost.

11:05 a.m.

Am iddi fod yn agored, mae'r Gweinidog wedi datgelu amrediad o bosibiliadau cyllidol, sydd yn cynnwys dychymyg yr optimist a'r pesimist heb gladdu harddwch y freuddwyd.

Mae'r Gweinidog yn iawn i dynnu ein sylw at y golled fawr i gyrrff megis Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru petaem yn colli'r arian sylweddol gan Gomisiwn y Mileniwm a ffynonellau eraill. Mae'n iawn hefyd i fynnau bod y gwaith adeiladu ar y prosiect yn cael ei reoli gan Ganolfan y Mileniwm dan gytundeb cost sefydlog er mwyn rhwystro costau adeiladu ychwanegol rhag syrthio ar ysgwyddau'r Cynulliad. Mae'n iawn i bwysleisio'r tebygrwydd y bydd eisiau cefnogaeth gyhoeddus i'r cynllun busnes i gadw'r glorian yn gytbwys. Wrth gynnig uchafswm o £2 filiwn y flwyddyn i wneud hyn, mae'n rhoi sicrwydd i'r prosiect. Wrth gynnig £2 filiwn arall ar gyfer gweithgaredd diwylliannol ar draws Cymru, mae'n cynnig moddion i leddfu'r boen a achoswyd gan 'Cardiffobia'.

**Owen John Thomas:** I have supported the Wales Millennium Centre project from the beginning, but I appreciate the complexity of an initiative that expects to attract 0.75 million people a year to its various activities. I also realise how difficult it is to be certain of the cost of such a large development, particularly in an age where the inheritance of Thatcher continues to make public spending a sin rather than a virtue. However, from listening to the Minister's statement, she has succeeded in keeping the project on track by considering its definite and uncertain aspects as well as the best and worst case scenarios in terms of cost.

As she has been open, the Minister has disclosed a range of financial possibilities, including the imagination of the optimist and the pessimist without burying the beauty of the project.

The Minister is right to draw our attention to the great loss that organisations such as Welsh National Opera would incur if we were to lose the substantial funding from the Millennium Commission and other sources. She is also right to insist that the construction work on the project be managed by the Wales Millennium Centre under a fixed price contract in order to prevent the Assembly having to shoulder additional building costs. She is right to emphasise the likelihood that the business plan will need public support to keep the scales balanced. In proposing a maximum of £2 million a year to do this, she gives the project security. In proposing a further £2 million for cultural activity across Wales, she offers relief for the pain caused by 'Cardiffobia'.

I ask the Minister to consider two crucial points. First, to recognise the importance of large numbers of people being able to travel easily to and from the bay. By maximising the accessibility of the capital city for all the people of Wales, we would move further from the worst case scenario for the Wales Millennium Centre and closer to the ideal of a unified nation. Fortunately, the time is right to capitalise on Objective 1 funding in the Valleys. That, together with a single rail franchise for Wales, can help to make the capital city and our national institutions and centres accessible to all the people of Wales.

I now turn to the ownership of the site of the Wales Millennium Centre. As this prestigious project would contribute so much to Cardiff's endeavour to be the European Capital of Culture in 2008, it would seem reasonable and symbiotic for Cardiff City and County Council to grant the Wales Millennium Centre a lease on the land at a peppercorn rent. That would further reduce a possible charge on the remainder of Wales and raise the capital's standing beyond the M4 and points east and west.

**Edwina Hart:** I do not doubt Owen John's passion for the project. I have heard him speak about it many times. I am afraid that, as Minister for Finance, I cannot have much passion; I must outline the worst case scenarios. I have tried to do that today. Transport issues have been discussed. I know that Sue Essex is particularly concerned about transport into the bay and the local authority is concerned about access to the Wales Millennium Centre. That is important.

I stated in the note that I circulated to Members this morning that I have discussed the position of Cardiff City and County Council with its leader. It supports this project and wants to move ahead with its bid to be the European Capital of Culture in 2008. We must understand that this is a matter for the local authority. It will be accountable to the electorate for its actions on land and car park issues. It would be helpful at this stage to acknowledge that it has been

Gofynnaf i'r Gweinidog ystyried dau bwynt holl bwysig. Yn gyntaf, i gydnabod pa mor bwysig yw hi y gall nifer fawr o bobl deithio'n hawdd yn ôl ac ymlaen i'r bae. Drwy wneud y gorau o hygyrchedd y brifddinas i holl bobl Cymru, byddem yn symud ymhellach yn awr o'r senario gwaethaf i'r Ganolfan ac yn agosach at ddelfryd cenedl unedig. Yn ffodus, mae'r amser yn iawn i fanteisio ar arian Amcan 1 yn y Cymoedd. Gall hynny, ynghyd â masnachfaint rheilffyrdd sengl i Gymru, helpu i wneud y brifddinas a'n sefydliadau a'n canolfannau cenedlaethol yn hygrych i holl bobl Cymru.

Trof yn awr at berchenogaeth safle Canolfan Mileniwm Cymru. Gan y byddai'r prosiect mawreddog hwn yn cyfrannu gymaint at ymdrech Caerdydd i fod yn Ganolfan Diwylliant Ewrop yn 2008, byddai'n ymddangos yn rhesymol ac yn symbiotig i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ganiatáu prydles i Ganolfan Mileniwm Cymru ar y tir am rent rhad. Byddai hynny'n lleihau'r posiblwydd o godi tâl ar weddill Cymru a byddai'n ymestyn statws y brifddinas y tu hwnt i'r M4 a mannau i'r dwyrain a'r gorllewin.

**Edwina Hart:** Nid wyf yn amau brwdrydedd Owen John dros y prosiect. Fe'i clywais yn sôn amdano droeon. Ofnaf, fel y Gweinidog dros Gyllid, na allaf fod yr un mor frwd; rhaid imi amlinellu'r senarios gwaethaf. Ceisiais wneud hynny heddiw. Trafodwyd materion trafnidiaeth. Gwn fod Sue Essex yn gofidio'n arbennig am drafnidiaeth i mewn i'r bae ac mae'r awdurdod lleol yn gofidio am fynediad i Ganolfan Mileniwm Cymru. Mae hynny'n bwysig.

Dywedsais yn y nodyn a anfonais at yr Aelodau y bore yma fy mod wedi trafod sefyllfa Cyngor Dinas a Sir Caerdydd gyda'i arweinydd. Mae'r cyngor yn cefnogi'r prosiect hwn ac am symud ymlaen gyda'i gynnig i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Rhaid inni ddeall mai mater i'r awdurdod lleol yw hyn. Bydd yn atebol i'r etholwyr am ei weithredoedd o ran materion tir a maes parcio. Byddai'n ddefnyddiol ar yr adeg hon i gydnabod y bu'n gefnogol i'm

supportive of my statement today.

**Val Feld:** The Minister stated that there are still considerable hurdles ahead for this project. Does she share my concern that, for the last several days, the Welsh media has been running stories that this project is home and dry? Does the Minister agree that we need to explain that considerable tests must be met before that will be the case? The Minister referred, properly, to the need to ensure that the whole of Wales benefits from this project. Will she consider adding to the tests an assessment of how the rest of Wales will benefit from this new centre? She also referred to further approval by the Assembly. When will the Assembly have an opportunity to vote on this matter, so that Members can make their views clearly known? I have great reservations about going ahead with a project of this scale without the Assembly having a strategy for the location of both public institutions in the arts, culture and sports, and public bodies. I know that this is not all within the Minister's remit. However, she stated that she was speaking on behalf of the First Minister and the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language. Will the Minister assure us that work will be undertaken to develop such a strategy, so that future decisions are made within a policy framework that examines how we should spread our resources across Wales?

**Edwina Hart:** As far as I am concerned, all decisions about our use of resources across Wales are made within a policy framework. I know that the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language has that at the forefront of her mind, from the discussions that we have had, including those about the Wales Millennium Centre. I am aware that the chair and members of the Culture Committee are also concerned about the strategic approach.

As regards the debate that will be held in Plenary, that will be a matter for the Minister for Culture, but I have indicated that discussion must take place in the Culture Committee. The Committee will want to take its time to deliberate the Wales Millennium Centre around the beginning of June to the

datganiad heddiw.

**Val Feld:** Dywedodd y Gweinidog fod rhwystrau sylweddol yn wynebu'r prosiect hwn o hyd. A yw'n rhannu fy mhryder y bu'r cyfryngau yng Nghymru, dros y dyddiau diwethaf, yn datgan bod y prosiect hwn wedi llwyddo? A gytuna'r Gweinidog fod angen inni egluro bod yn rhaid bodloni amodau sylweddol cyn y bydd hynny'n wir? Cyfeiriodd y Gweinidog, yn briodol, at yr angen i sicrhau bod Cymru gyfan yn elwa ar y prosiect hwn. A wnaiff hi ystyried ychwanegu asesiad at yr amodau hyn o sut y bydd gweddill Cymru yn elwa ar y ganolfan newydd hon? Cyfeiriodd hefyd am gymeradwyaeth bellach gan y Cynulliad. Pryd y caiff y Cynulliad gyfle i bleidleisio ar y mater hwn, fel y gall yr Aelodau wneud eu barn yn hysbys? Mae gennyf amheuon mawr ynglŷn â mynd ymlaen â phrosiect o'r maint hwn heb fod gan y Cynulliad strategaeth ar gyfer lleoliad sefydliadau cyhoeddus yn y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon, a chyrff cyhoeddus. Gwn nad yw hyn i gyd o fewn cylch gwaith y Gweinidog. Fodd bynnag, nododd ei bod yn siarad ar ran y Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg. A wnaiff y Gweinidog ein sicrhau yr ymgymrerir â'r gwaith i ddatblygu strategaeth o'r fath, fel y gwneir penderfyniadau yn y dyfodol o fewn fframwaith polisi sydd yn ymchwilio i'r ffordd y dylem ddosbarthu ein hadnoddau ledled Cymru?

**Edwina Hart:** O'm rhan i, gwneir pob penderfyniad ynglŷn â'n defnydd o adnoddau ledled Cymru o fewn fframwaith polisi. Gwn fod hynny'n flaenoriaeth i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, o'r trafodaethau a gawsom, gan gynnwys y trafodaethau hynny ynglŷn â Chanolfan Mileniwm Cymru. Yr wyf yn ymwybodol bod cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Diwylliant yn goficio hefyd ynglŷn â'r ymagwedd strategol.

O ran y ddadl a gynhelir yn y Cyfarfod Llawn, bydd hynny'n fater i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, ond nodais fod yn rhaid i'r drafodaeth honno ddigwydd yn y Pwyllgor Diwylliant. Bydd y Pwyllgor am gymryd ei amser i drafod Canolfan Mileniwm Cymru rhwng dechrau Mehefin a diwedd

end of July.

On the issue of the press, I do not generally comment about what goes on in the fourth estate. Obviously there will always be speculation. My statement makes the Government's position clear.

I must say that I am not interested in your tests, Val. Sometimes we must recognise that these projects are not within our control. The Wales Millennium Centre project started long before the Assembly was established. The Wales Millennium Centre is responsible for that project and it had sufficient motivation to start the project and attract money from the Millennium Commission. Let us be under no illusions in this Chamber: if this project does not go ahead, that Millennium Commission money will not go towards a new centre in Swansea or north Wales. The nature of the project meant that it would be in Cardiff. It is difficult sometimes when we are here in Cardiff, because we have our constituency interests. However, sometimes, as politicians, we must put Welsh interests, and what we want for Wales and our image in the world, at the centre of our deliberations, rather than what we say in the local newspapers in our constituencies.

**Jonathan Morgan:** First, on behalf of the Welsh Conservative Party, I thank the Minister for her statement today, and for taking a firm lead on this issue. We have been concerned in recent months that the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language has not taken a lead, that the Wales Millennium Centre lacked firm leadership, and that the Government's input has been slack. By virtue of your taking a lead, our confidence has increased, particularly given the way you have dealt with this important matter openly. We are pleased that the report contains such—in many respects—brutal statistics. The risks are brutal, as you outlined. I am grateful that you have been open and transparent in your approach.

We welcome Sir David Rowe-Beddoe's appointment as chairman of the Wales

Gorffennaf.

O ran y wasg, nid wyf yn gyffredinol yn sôn am yr hyn sydd yn digwydd yn y wasg. Yn amlwg, bydd dyfalu bob amser. Mae fy natganiad yn nodi safbwyt y Llywodraeth yn glir.

Rhaid imi ddweud nad oes diddordeb gennyst yn eich amodau, Val. Weithiau, rhaid inni gydnabod nad yw'r prosiectau hyn o fewn ein rheolaeth. Dechreuodd prosiect Canolfan Mileniwm Cymru ymhell cyn i'r Cynulliad gael ei sefydlu. Canolfan Mileniwm Cymru sydd yn gyfrifol am y prosiect hwnnw a chafodd ddigon o gymhelliant i ddechrau'r prosiect a denu arian o Gomisiwn y Mileniwm. Peidiwch â chael eich twyllo yn y Siambr hon: os nad aiff y prosiect hwn yn ei flaen, nid aiff yr arian hwnnw gan y Comisiwn y Mileniwm tuag at ganolfan newydd yn Abertawe neu ogledd Cymru. Golygai natur y prosiect y byddai yng Nghaerdydd. Mae'n anodd weithiau pan fyddwn ni yma yng Nghaerdydd, gan fod gennym ein buddiannau yn ein hetholaethau. Fodd bynnag, weithiau, fel gwleidyddion, rhaid inni roi ein buddiannau Cymreig, a'r hyn yr ydym am ei gael i Gymru a'n delweddu yn y byd, ynghanol ein penderfyniadau, yn hytrach na'r hyn a ddywedwn yn y papurau newydd lleol yn ein hetholaethau.

**Jonathan Morgan:** Yn gyntaf, ar ran Plaid Geidwadol Cymru, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw, ac am roi arweiniad cadarn ar y mater hwn. Buom yn gofio dros y misoedd diwethaf nad oedd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg wedi cymryd yr awenau, bod diffyg arweinyddiaeth gadarn mewn perthynas â Chanolfan Mileniwm Cymru, a bod mewnbwn y Llywodraeth wedi bod yn llac. Gan eich bod wedi cymryd yr awenau, mae ein hyder wedi cynyddu, yn arbennig o gofio'r ffordd yr ymdriniasoch â'r mater pwysig hwn mewn ffordd mor agored. Yr ydym yn falch bod yr adroddiad yn cynnwys—mewn sawl ystyr—ystadegau mor llym. Mae'r risgiau'n llym, fel y crybwyllasoch. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am fod mor agored a chlir yn eich ymagwedd.

Croesawn benodiad Syr David Rowe-Beddoe fel cadeirydd Canolfan Mileniwm Cymru.

Millennium Centre. We believe that his appointment will ensure further confidence in the project. We know of Sir David's background and the wealth of experience that he will bring to the project. Are you in a position to set specific targets for raising private sector investment? We are concerned that this funding gap should not be wholly plugged from the public purse, but also from private sector investment opportunities. We do not believe that a project of such profound cultural and economic importance to Cardiff and Wales cannot gain more private sector investment. We are confident and sure that Sir David will be able to pursue that vigorously.

We would also like to see further changes in the Wales Millennium Centre board. We need people on the board with backgrounds in managing large-scale projects such as this. We hope for further changes over the next few months.

On the issue of fixed costs, we have been concerned about the size of the building. Last year the building probably could have been built for £85 million, at about 420,000 square foot. It will now be about 320,000 square foot, but will cost £92 million. Therefore, we are pleased that the Government has recognised the need to fix the costs and for the Wales Millennium Centre to go out to tender, to establish whether a construction company will build it for £92 million. Without fixed costs, there is no confidence, and no agreement to proceed. This is an important part of our agreement to proceed. It would do a great deal to raise confidence, not only in the Assembly, but also across Wales and among the taxpayers who are being asked to foot the bill for this important project.

We have been concerned about the Wales Millennium Centre's revenue figures. Leading members of the arts community were surprised at the over-inflated projected attendance figures of some 450,000 people per year and at the percentage capacity that the Wales Millennium Centre expects to achieve. We are pleased that the Culture Committee will analyse those figures and scrutinise them further. We must be sure that this project will run effectively once the building is constructed.

Credwn y bydd ei benodiad yn ennynt hyder pellach yn y prosiect. Gwyddom am gefndir Syr David a'r cyfoeth o brofiad a ddaw i'r prosiect. A ydych mewn sefyllfa i bennu targedau penodol ar gyfer codi buddsoddiad y sector preifat? Gofidiwn na ddylid llenwi'r bwlc hriannu hwn yn llwyr o bwrs y wlad, ond y dylai gael ei lenwi hefyd o ganlyniad i gyfleoedd buddsoddi yn y sector preifat. Ni chredwn y gall prosiect o bwysigrwydd diwylliannol ac economaidd mor sylweddol i Gaerdydd a Chymru ennill rhagor o fuddsoddiad yn y sector preifat. Yr ydym yn hyderus ac yn sicr y gall Syr David fwrrw ymlaen â hynny yn egniol.

Hoffwn hefyd weld newidiadau pellach i fwrrd Canolfan Mileniwm Cymru. Mae angen pobl ar y bwrdd sydd â phrofiad o reoli prosiectau ar raddfa fawr fel hwn. Gobeithiwn am newidiadau pellach dros yr ychydig fisoeedd nesaf.

O ran costau sefydlog, buom yn gofidio am faint yr adeilad. Y llynedd, gellid bod wedi adeiladu'r adeilad siŵr o fod am £85 miliwn, sef tua 420,000 o droedfeddi sgwâr. Erbyn hyn bydd tua 320,000 o droedfeddi sgwâr, ond bydd yn costio £92 miliwn. Felly, yr ydym yn falch bod y Llywodraeth wedi cydnabod yr angen i wneud y costau yn sefydlog ac i Ganolfan Mileniwm Cymru roi gwaith ar dendr, er mwyn sefydlu a all cwmni adeiladu ei adeiladu am £92 miliwn. Heb gostau sefydlog, nid oes unrhyw hyder, nac unrhyw gytundeb i fynd ymlaen. Mae hyn yn rhan bwysig o'n cytundeb i fynd ymlaen. Byddai'n gwneud llawer iawn i ennyn hyder, nid yn unig yn y Cynulliad, ond ledled Cymru ac ymhli y trethdalwyr y gofynnir iddynt dalu'r bil am y prosiect pwysig hwn.

Buom yn gofidio am ffigurau refeniw Canolfan Mileniwm Cymru. Yr oedd aelodau blaenllaw o'r gymuned gelfyddydol yn synnu at y ffigurau presenoldeb mawr a ragamcanwyd o tua 450,000 o bobl y flwyddyn ac yn synnu at y capaciti canrannol y mae Canolfan Mileniwm Cymru yn disgwyl ei gyflawni. Yr ydym yn falch y bydd y Pwyllgor Diwylliant yn dadansoddi'r ffigurau hyn ac yn eu harchwilio ymhellach. Rhaid inni fod yn siŵr y bydd y prosiect hwn yn rhedeg yn effeithiol unwaith yr adeiledir

yr adeilad.

11:15 a.m.

Consultation is needed with people from the wider arts community, who have the expertise and knowledge to inform us how such a building can be filled with the necessary number of people to make the project worthwhile. Such people know and understand how to run theatres and other comparable buildings across the United Kingdom. We must ensure them that any public subsidy that the Assembly might have to consider will not divert crucial funds away from Wales's culture budget. People in north Wales and throughout the country, who see this development taking place in Cardiff, must have confidence that the Government and the Assembly will ensure public funding for the arts across Wales, in addition to any money that will be made available for this project.

In closing, Wales has nurtured many world-class artists and we have a world-class opera company. We have the privilege every year of seeing our world-class artists perform around the world, doing their nation proud. We must ensure that they have a world-class venue in Wales, in which to perform. That is a considerable challenge for the Assembly.

**Edwina Hart:** The Minister for Culture, Sport and the Welsh Language has already been heavily involved in consultation with the arts community and several discussions have taken place. Therefore, that puts your unfair first comment about the Minister into context. I was asked to undertake this work by the Minister for Culture because of my financial brief. We are taking a two-pronged approach at this stage.

I share your concerns about revenue, which were also expressed clearly by the Culture Committee. There is probably not a public building or arts venue in the UK that does not receive some element of revenue funding from Government. We must get on top of this issue. It is better to have honesty at this stage, rather than have to tackle a crisis in a few years, when the building has been constructed. That is important. Fixed costs

Mae angen ymgynghori â phobl o'r gymuned gelfyddydol ehangach, sydd â'r arbenigedd a'r wybodaeth i ddweud wrthym sut y gellir llenwi adeilad o'r fath gyda'r nifer angenrheidiol o bobl i wneud y prosiect yn un gwerth chweil. Mae pobl o'r fath yn gwybod ac yn deall sut i gynnal theatrau ac adeiladau cyffelyb eraill ledled y Deyrnas Unedig. Rhaid inni eu sicrhau na fydd unrhyw nawdd cyhoeddus y bydd yn rhaid i'r Cynulliad ei ystyried efallai yn dargyfeirio arian holl bwysig i ffwrdd o gyllideb ddiwylliannol Cymru. Rhaid i bobl yng ngogledd Cymru a ledled y wlad, sydd yn gweld y datblygiad hwn yn digwydd yng Nghaerdydd, fod yn hyderus y bydd y Llywodraeth a'r Cynulliad yn sicrhau arian cyhoeddus i'r celfyddydau ledled Cymru, yn ogystal ag unrhyw arian a fydd ar gael ar gyfer y prosiect hwn.

Wrth gau, mae Cymru wedi meithrin llawer o artistiaid o'r radd flaenaf, ac mae gennym gwmni opera o'r radd flaenaf. Cawn y faint bob blwyddyn o weld ein hartisiaid gwych yn perfformio ym mhedwar ban byd, ac mae eu cenedl yn ymfalchïo ynddynt. Rhaid inni sicrhau bod ganddynt leoliad o'r radd flaenaf yng Nghymru i berfformio ynddo. Mae hynny'n dipyn oherwydd y Cynulliad.

**Edwina Hart:** Eisoes bu'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn ymgynghori llawer â'r gymuned gelfyddydol a chynhaliwyd sawl trafodaeth. Felly, mae hynny'n rhoi eich sylw cyntaf annheg ynglŷn â'r Gweinidog yn ei gyd-destun. Gofynnodd y Gweinidog dros Ddiwylliant imi ymgymryd â'r gwaith hwn oherwydd fy mriff ariannol. Yr ydym yn mabwysiadu ymagwedd ddeublyg ar yr adeg hon.

Rhannaf eich pryderon ynglŷn â refeniw, a fynegwyd yn glir hefyd gan y Pwyllgor Diwylliant. Nid oes un adeilad cyhoeddus na lleoliad celfyddydol yn y DU siŵr o fod na chaiff rywfaint o arian refeniw gan y Llywodraeth. Rhaid inni roi trefn ar y mater hwn. Mae'n well bod yn onest ar yr adeg hon, yn hytrach na gorfod mynd i'r afael ag argyfwng mewn rhai blynnyddoedd, pan fydd yr adeilad wedi ei godi. Mae hynny'n

are essential. We have all learnt that, if you cannot secure the figures for building projects, you have had it.

I also welcome Sir David Rowe-Beddoe's appointment. His background will be useful in seeking greater private sector investment. He will have the private sector's confidence and has many contacts worldwide. Hopefully, he will also make a tremendous difference in raising revenue from such sources. In his leadership role, I think that he will want to consider the board. It is a hard-working and industrious board, but I accept your point about the importance of project management. I know that Jenny is also concerned about that. We need somebody who is hands-on, managing the project daily, to ensure that we keep within the budget.

Your final point was well made. The Welsh National Opera is well-known worldwide. It is the image of Wales and it markets our country wonderfully. However, we must recognise that it has no suitable home in Wales. It could just as easily be the Bristol hippodrome opera company or a company working from Birmingham. That would be a great tragedy for our nation.

**Mick Bates:** This project presents an immense challenge, which we must meet. I am sure that you will join me in congratulating the First Minister for announcing a review of the project some months ago. I also record our thanks to Jenny Randerson for her work in that review. I also welcome Sir David Rowe-Beddoe as chair of the Wales Millennium Centre. I am sure that his expertise will ensure that this project is a success.

The project is a critical step forward for Wales's arts, culture and language, as it demonstrates our vision and confidence in our country's future at what is such a dark time in many areas. It will also have a significant impact on employment and economic benefit for Wales and, in particular,

bwysig. Mae costau sefydlog yn holl bwysig. Yr ydym oll wedi dysgu os na allwch sicrhau'r ffigurau ar gyfer prosiectau adeiladu, mae wedi canu arnoch.

Croesawaf benodiad Syr David Rowe-Beddoe hefyd. Bydd ei gefndir yn ddefnyddiol wrth geisio sicrhau mwy o fuddsoddiad yn y sector preifat. Bydd hyder y sector preifat ganddo hefyd ac mae ganddo lawer o gysylltiadau ar draws y byd. Gobeithio hefyd y gwnaiff wahaniaeth enfawr wrth godi refeniu o ffynonellau o'r fath. Yn ei rôl fel arweinydd, credaf y bydd am ystyried y bwrdd. Mae'n fwrrd sydd yn gweithio'n galed a diwyd, ond derbyniaf eich pwynt ynglŷn â phwysigrwydd rheoli prosiectau. Gwn fod Jenny yn gofiddio ynglŷn â hynny hefyd. Mae angen rhywun arnom sydd yn gweithio mewn ffordd ymarferol, gan reoli'r prosiect o ddydd i ddydd, er mwyn sicrhau ein bod yn cadw o fewn y gyllideb.

Yr oedd eich pwynt olaf yn un da. Mae Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn gyfarwydd i bobl ledled y byd. Dyma ddelwedd Cymru ac mae'n marchnata ein gwlad mewn ffordd ragorol. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod nad oes ganddi unrhyw gartref addas yng Nghymru. Gallai yr un mor hawdd fod yn gwmni opera hippodrome Bryste neu'n gwmni sydd yn gweithio yn Birmingham. Byddai hynny'n drasiedi fawr i'n gwlad.

**Mick Bates:** Mae'r prosiect hwn yn cynnig her aruthrol, y mae'n rhaid inni ei derbyn. Yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi i longyfarch y Prif Weinidog am gyhoeddi adolygiad o'r prosiect rai misoedd yn ôl. Cofnodaf hefyd ein diolchiadau i Jenny Randerson am ei gwaith yn yr adolygiad hwnnw. Croesawaf innau hefyd Syr David Rowe-Beddoe fel cadeirydd Canolfan Mileniwm Cymru. Yr wyf yn siŵr y bydd ei arbenigedd yn sicrhau llwyddiant y prosiect hwn.

Mae'r prosiect yn gam holl bwysig ymlaen i gelfyddyddau, diwylliant ac iaith Cymru, gan ei fod yn dangos ein gweledigaeth a'n hyder yn nyfodol ein gwlad ar adeg mor dywyll mewn llawer o ardaloedd. Caiff effaith bwysig hefyd ar gyflogaeth a budd economaidd Gymru ac, yn arbennig, ar

on Wales's image in the world.

We welcome the fixed price contract approach and the realistic attitude to this project. I am confident that these conditions will be met as long as you, Minister, retain your current position. That was meant as a compliment.

**Nick Bourne:** Be wary of giving compliments.

**The Presiding Officer:** Order. I am all in favour of compliments to the Minister for Finance and I pay them to her myself, privately, but will you get on with it?

**Mick Bates:** I was pleased to hear your response to Jonathan Morgan because I agree that there must be wide consultation with arts societies to ensure that this project is a success. We have heard many times how poor consultation leads to failure.

Finally, since we announced that this project would continue and since a wonderful chair has been appointed, is there a possibility that the private financial support for this project may increase from £4 million to £8 million or even more? If the project exceeded £92 million, will that extra private funding meet that extra cost?

**Edwina Hart:** On Jonathan Morgan's point, I would be delighted if we could get more private money so that there would not be as much public money involved. However, I am determined about the cost envelope of the overall figure and I do not think that I can move from it. People have asked me 'what if the costs exceeded £100 million?' My answer is that they cannot. We must have stability in this project. We have not had it before and it is essential that we stick to the figures. Jenny has taken a lead on taking this through and has asked me to calculate these figures.

**The Presiding Officer:** We are out of time but I will call the Chair of the Culture Committee.

ddelwedd Cymru yn y byd.

Croesawn yr ymagwedd contract pris sefydlog a'r agwedd realistig tuag at y prosiect hwn. Yr wyf yn hyderus y bodlonir yr amodau hyn cyhyd ag y gallwch chi, Weinidog, gadw eich swydd bresennol. Golygyd hynny fel canmoliaeth.

**Nick Bourne:** Gwyliwch rhag canmol.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf o blaid canmol y Gweinidog dros Gyllid a thalaf deyrnged iddi fy hun, yn breifat, ond a fyddch cystal â pharhau?

**Mick Bates:** Yr oeddwn yn falch o glywed eich ymateb i Jonathan Morgan oherwydd cytunaf fod yn rhaid ymgynghori'n eang â chymdeithasau celfyddydol er mwyn sicrhau bod y prosiect hwn yn llwyddo. Clywsom droeon sut y mae ymgynghori gwael yn arwain at fethiant.

Yn olaf, ers inni gyhoeddi y byddai'r prosiect hwn yn parhau a chan fod cadeirydd gwych wedi ei benodi, a oes posiblwyd y gall y gefnogaeth ariannol breifat ar gyfer y prosiect hwn gynyddu o £4 miliwn i £8 miliwn neu hyd yn oed yn fwy? Pe bai'r prosiect yn mynd y tu hwnt i £92 miliwn, a fydd yr arian preifat ychwanegol hwnnw yn talu'r gost ychwanegol honno?

**Edwina Hart:** Ar bwynt Jonathan Morgan, byddwn wrth fy modd pe baem yn gallu cael mwy o arian preifat fel na fyddai'n golygu gwario cymaint o arian cyhoeddus. Fodd bynnag, yr wyf yn benderfynol ynglŷn â therfyn cost y ffigur cyffredinol ac ni chredaf y gallaf wyro oddi wrtho. Mae pobl wedi gofyn imi 'beth os aiff y costau y tu hwnt i £100 miliwn?' Fy ateb yw na allant. Rhaid inni gael sefydlogrwydd yn y prosiect hwn. Ni chawsom ef o'r blaen ac mae'n hanfodol ein bod yn cadw at y ffigurau. Mae Jenny wedi cymryd yr awenau ar ganlyn hyn i'w derfyn ac mae wedi gofyn imi gyfrifo'r ffigurau hynny.

**Y Llywydd:** Daeth ein hamser i ben ond galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant.

**Rhodri Glyn Thomas:** I welcome the Minister's statement and commend her on her astute management of the financial aspects of this sensitive issue and the inclusive way in which she has tried to move this project forward. Does she agree that the chairmanship and membership of the board of the Wales Millennium Centre is a matter for the board? Will she agree that Sir Alan Cox, the former chair, made an important contribution to getting this project off the ground and ensuring enthusiasm for it? I welcome the new chair, Sir David Rowe-Beddoe.

I welcome the role that the Minister has asked the Committee to undertake and that she has recognised that we do not have the expertise to give cast iron guarantees about the revenue position of this project, but that we are happy to review the figures and, hopefully, be reassured by the board that they are under control. Will she also reassure us more firmly—she has partly done so—that expenditure on the Wales Millennium Centre will not affect the expenditure on the arts generally in Wales or the budget of the Arts Council of Wales? Does she accept that if we want the Millennium Centre to reflect the culture of Wales, there may be a need for the Assembly to contribute financially year-on-year to the revenue funding of the centre to ensure that it has an outreach programme to the whole of Wales?

Croesawn y ffordd y mae'r Gweinidog wedi delio â'r sefyllfa hon a'r ffordd y mae'r prosiect yn symud yn ei flaen. Byddwn yn edrych yn fanwl ar y ffigurau cyfalaf a refeniw ond hyderaf y gallwn symud ymlaen â'r prosiect hwn sydd mor bwysig i ddiwylliant yng Nghymru.

**Edwina Hart:** It is essential that we recognise the implications of the Wales Millennium Centre on the arts in Wales. We cannot be seen to be taking money from one area of Wales to ensure that we have the Wales Millennium Centre. It is appropriate that the Committee will be discussing the centre in the run up to the budget process. It is an ideal opportunity for it to look at the nature of the arts in Wales and the outreach activities that could emanate from the Wales Millennium Centre in the context of its

**Rhodri Glyn Thomas:** Croesawaf ddatganiad y Gweinidog ac fe'i canmolaf ar ei rheolaeth graff dros agweddau ariannol y mater sensitif hwn a'r ffordd gynhwysol y ceisiodd ddatblygu'r prosiect hwn. A gytuna mai mater i'r bwrdd yw cadeiryddiaeth ac aelodaeth bwrdd Canolfan Mileniwm Cymru? A gytuna y gwnaeth Syr Alan Cox, y cyn gadeirydd, gyfraniad pwysig tuag at ddechrau'r gwaith ar y prosiect hwn a sicrhau brwdfrydedd amdano? Croesawaf y cadeirydd newydd Syr David Rowe-Beddoe.

Croesawaf y rôl y mae'r Gweinidog wedi gofyn i'r Pwyllgor ymgymryd â hi a'i bod wedi cydnabod nad yw'r arbenigedd gennym i roi sicrwydd cadarn ynglŷn â sefyllfa refeniw y prosiect hwn, ond ein bod yn fodlon adolygu'r ffigurau a, gobeithio, cael ein sicrhau gan y bwrdd eu bod o dan reolaeth. A wnaiff hi ein sicrhau hefyd yn fwy cadarn—mae wedi gwneud hynny i ryw raddau—na fydd gwariant ar Ganolfan Mileniwm Cymru yn effeithio ar y gwariant ar y celfyddydau yn gyffredinol yng Nghymru nac ar gyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru? A yw'n derbyn y bydd angen i'r Cynulliad gyfrannu'n ariannol flwyddyn ar ôl blwyddyn tuag at arian refeniw y ganolfan er mwyn sicrhau bod ganddi raglen allgyrch i Gymru gyfan, er mwyn adlewyrchu diwylliant Cymru?

We welcome the way in which the Minister has dealt with this situation and the way in which the project is proceeding. We will look at the capital figures and revenue figures in detail, but I trust that we can proceed with this project, which is so important to culture in Wales.

**Edwina Hart:** Mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod goblygiadau Canolfan Mileniwm Cymru i'r celfyddydau yng Nghymru. Ni ddylwn roi'r argraff ein bod yn cymryd arian o un ardal yng Nghymru er mwyn sicrhau y cawn Ganolfan Mileniwm Cymru. Mae'n briodol y bydd y Pwyllgor yn trafod y ganolfan yn arwain at y broses gyllidebu. Mae'n gyfle delfrydol iddo edrych ar natur y celfyddydau yng Nghymru a'r gweithgareddau allgyrch a allai ddeillio o Ganolfan Mileniwm Cymru yng nghyd-

request for Jenny Randerson to bring forward proposals relating to arts budgets in Wales. There has to be recognition that if we want Wales to shine in terms of its artists and to deliver we must examine the resources that are available. I give that assurance in that context, providing that there are no more national crises or emergencies.

I value the role that the Committee has undertaken and the further role that it has agreed to undertake. The Committee members are not experts in this field but they had a feel for it and they knew what the issues were during the interviews with the representatives of the Wales Millennium Centre in the Culture Committee. The Committee can play an important and vigorous part in getting to the heart of the issue of whether we need any revenue to be allocated. If that is the issue and that is what we must do, we will do it. Let us be clear at the start of the process that it might require funds from us.

I agree, Rhodri, that the appointment of the chair of the board is a matter for the Wales Millennium Centre. We value the work and the vibrancy of Alan Cox's approach. He wanted the project to shine and go ahead. We have to recognise that. We also have to recognise that the decision of the board is a matter of 'horses for courses'. You would not appoint an artistic director to manage the building of an arts centre; you would appoint an expert in building. We have to recognise the various skills involved.

I thank the Chair of the Culture Committee for his assistance over the last few weeks and also the party spokespeople who have been helpful in enabling me to deliver this statement.

11:25 a.m.

**The Presiding Officer:** Before we move on, I have received electronic representations that I am in danger of not allowing a balanced view to be put forward. Therefore, I will call Peter Law to speak.

**Peter Law:** I am grateful to you for this

destun ei gais i Jenny Randerson gyflwyno cynigion yn ymwneud â chyllidebau'r celfyddydau yng Nghymru. Rhaid cydnabod, os ydym am i Gymru lewyrchu o ran ei hartistiaid ac er mwyn iddi gyflawni, bod yn rhaid inni archwilio'r adnoddau sydd ar gael. Rhoddaf y sicrwydd hwnnw yn y cyd-destun hwnnw, ar yr amod na fydd rhagor o argyfyngau cenedlaethol.

Gwerthfawrogaf y rôl yr ymgymeroedd y Pwyllgor â hi a'r rôl bellach y cytunodd i ymgymryd â hi. Nid yw aelodau'r Pwyllgor yn arbenigwyr yn y maes hwn ond yr oedd ganddynt ymdeimlad ohono a gwyddent beth oedd y materion yn ystod y cyfweliadau â chynrychiolwyr Canolfan Mileniwm Cymru yn y Pwyllgor Diwylliant. Gall y Pwyllgor chwarae rhan bwysig a grymus wrth fynd at wraidd y mater i weld a oedd angen inni ddyrannu unrhyw refeniu. Os mai dyna yw'r mater dan sylw, a dyna beth mae'n rhaid inni ei wneud, yna gwnawn hyunny. Gadewch inni fod yn glir o ddechrau'r broses y gallai olygu bod yn rhaid inni ddarparu'r arian.

Cytunaf Rhodri, mai mater i Ganolfan Mileniwm Cymru yw penodi cadeirydd i'r bwrdd. Gwerthfawrogwn waith ac egni ymagwedd Alan Cox. Yr oedd am i'r prosiect lewyrchu a datblygu. Rhaid inni gydnabod hyunny. Rhaid inni gydnabod hefyd bod penderfyniad y bwrdd yn golygu penodi'r person cymwys yn y maes priodol. Ni fyddch yn penodi cyfarwyddwr artistig i reoli'r gwaith o adeiladu canolfan celfyddydau; byddech yn penodi arbenigwr adeiladu. Rhaid inni gydnabod y sgiliau amrywiol sydd yn gysylltiedig â hyn.

Diolchaf i Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant am ei gymorth dros yr ychydig wythnosau diwethaf ac i lefarwyr y pleidiau hefyd am eu cymorth i'm galluogi i gyflwyno'r datganiad hwn.

**Y Llywydd:** Cyn inni symud ymlaen, derbyniais sylwadau electronig yn datgan fy mod mewn perygl o beidio â gadael i farm gytbwys gael ei chyflwyno. Felly, galwaf ar Peter Law i siarad.

**Peter Law:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am y

opportunity to speak as I represent another opinion, as some will know. It is important because many people in Wales, the poor people, see this centre as a cultural albatross around their necks. It was originally costed at £75 million and now we are talking about £92 million and possibly £100 million and a blank cheque with a copper bottom guarantee. The Minister for Culture said recently that this project must not be allowed to siphon money from the rest of Wales. That is exactly what it will do. The £25 million or so that was going into this will siphon money from the rest of Wales.

I appreciate that at least two Secretaries of State in the Westminster Government made a commitment to support this and that £2 million was given by the First Minister for the Millennium Centre to assess the situation. Surely, having been given the £2 million, it should have stuck to the £75 million cost envelope and not come back here requiring another £17 million, while people are suffering from social deprivation and inequality in Wales. That is the point. What does this mean for the people of Ceredigion, Rhondda, Denbigh, Caernarfon, those who sleep rough on the streets and my constituents in Blaenau Gwent? Thousands of people will never see it let alone sit in it. I understand that there is £27 million available from the Lottery Commission and that is important for Wales. However, there must be reality. Until now we have been living in a virtual reality—

**The Presiding Officer:** Order. You are in danger of making a speech and you are not the lead speaker in your party group. The lead speaker expressed a similar view to yours. I ask you to draw to a conclusion.

**Peter Law:** I have a minority view and I appreciate your letting me speak. I will wind up now because I will speak to the press outside later. The people of Wales deserve equality and a fair deal. We should at least cap this scheme—

**The Presiding Officer:** Order. I have allowed you to make your point. This is not a debate. These contributions should be questions on the statement. I have allowed

cyfle hwn i siarad gan fy mod yn cynrychioli barn arall, fel y gŵyr rhai ohonoch. Mae'n bwysig oherwydd gwêl llawer o bobl yng Nghymru, y bobl dlawd, y ganolfan hon fel albatros diwylliannol o amgylch eu gyddfau. Cost wreiddiol y ganolfan oedd £75 miliwn ond erbyn hyn mae'n £92 miliwn ac o bosibl yn £100 miliwn gyda siec wag â gwarant ddibynadwy. Dywedodd y Gweinidog dros Ddiwylliant yn ddiweddar na ddylid caniatáu i'r prosiect hwn sugno arian o weddill Cymru. Dyna'n union beth a wna. Bydd y £25 miliwn neu oddeutu hynny a oedd ar gael ar gyfer hyn yn sugno arian o weddill Cymru.

Gwerthfawrogaf fod o leiaf dau Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth San Steffan wedi ymrwymo i gefnogi hyn a bod Prif Weinidog Cymru wedi rhoi £2 filiwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm i asesu'r sefyllfa. Does bosib, ar ôl cael y £2 filiwn, y dylai fod wedi glynu at y £75 miliwn a oedd ar gael yn hytrach na dod yn ôl yma i ofyn am £17 miliwn arall, tra bod pobl yn dioddef o amddifadedd cymdeithasol ac anghyfartaledd yng Nghymru. Dyna'r pwynt. Beth mae hyn yn ei olygu i bobl Ceredigion, Rhondda, Dinbych, Caernarfon, y rheini sydd yn cysgu ar y strydoedd a'm hetholwyr ym Mlaenau Gwent? Ni fydd miloedd o bobl byth yn ei gweld heb sôn am eistedd ynddi. Deallaf fod £27 miliwn ar gael gan Gomisiwn y Loteri ac mae hynny'n bwysig i Gymru. Fodd bynnag, rhaid cael realiti. Hyd yn hyn buom yn byw mewn rhithwir—

**Y Llywydd:** Trefn. Yr ydych mewn perygl o wneud arraith ac nid chi yw prif siaradwr grŵp eich plaid. Mynegodd y prif siaradwr farn debyg i'ch un chi. Gofynnaf ichi ddod i ben.

**Peter Law:** Mae gennyl farn leiafrifol a gwerthfawrogaf eich bod yn gadael imi siarad. Gwnaf ddirwyn i ben yn awr oherwydd siaradaf â'r wasg y tu allan yn ddiweddarach. Mae pobl Cymru yn haeddu cydraddoldeb a chwarae teg. Dylem o leiaf geisio capio'r cynllun hwn—

**Y Llywydd:** Trefn. Caniateais ichi wneud eich pwynt. Nid dadl yw hon. Dylai'r cyfraniadau hyn fod yn gwestiynau ar y datganiad. Caniateais gwestiynau estynedig

extended questions by one speaker from your group whose position was not inconsistent with yours.

**Peter Law:** I ask that the Wales Millennium Centre committee cap this scheme at £75 million.

**Edwina Hart:** If you ask it to cap it, you will say goodbye to the scheme, to £27 million, to the public money that has been invested. There is not a blank cheque for this scheme. I find that comment quite insulting. I have set out in words of one syllable the financial arrangements and tests that I envisage. There is not a blank cheque. This is a realisation of the current situation. It is not ideal that we are only at this stage. It would have been nice if this project had been done and dusted 12 months ago, but it was not. That is life. Now that we have decided to get a real grip on this, we know where we are going.

When I was a trade union official I was privileged to be involved with many people from many companies across the world. I used to think that they looked at Wales in terms of cheap labour costs and so on and that that was why they came to Wales. There were elements of that but it was also because they knew where Wales was. They knew because of the Welsh National Opera company. When they were sitting in some American town or city listening to the WNO, they could tell that it was a prestigious company. That is how they knew about Wales and were persuaded to visit sites in Wales.

We must recognise that companies such as the WNO, and the arts and culture of Wales, are key to our economic development. That is what will bring prosperity to areas such as Ceredigion and the Valleys. We cannot be narrow-minded and think that if it does not happen in Cardiff, it will happen somewhere else and that only that area will benefit. That will not happen. This statement is about being realistic. The centre will not go ahead if it goes beyond the cost envelope.

gan un siaradwr o'ch grŵp nad oedd ei farm yn anghyson â'ch un chi.

**Peter Law:** Gofynnaf i bwyllgor Canolfan Mileniwm Cymru gapio'r cynllun hwn ar £75 miliwn.

**Edwina Hart:** Os gofynnwch iddo ei gapio, gallwch ffarwelio â'r cynllun, â £27 miliwn, â'r arian cyhoeddus a fuddsoddwyd. Nid oes siec wag ar gyfer y cynllun hwn. Teimlaf fod y sylw hwnnw yn eithaf sarhaus. Nodais mewn geiriau unsill y trefniadau ariannol a'r profion/amodau a ragwelaf. Nid oes siec wag. Dyma realiti'r sefyllfa bresennol. Nid yw'n ddelfrydol mai dim ond ar y cam hwn yr ydym. Byddai wedi bod yn braf pe bai'r prosiect hwn wedi ei orffen 12 mis yn ôl, ond nid oedd. Fel yna y mae pethau. Gan ein bod wedi penderfynu cael gafael bendant ar bethau erbyn hyn, gwyddom i ble yr ydym yn mynd.

Pan oeddwn yn swyddog undeb llafur cefais y fraint o ymwneud â llawer o bobl o lawer o gwmniâu ledled y byd. Arferwn feddwl eu bod yn ystyried Cymru yn nhermau costau llafur rhad ac yn y blaen ac mai dyna pam y daethant i Gymru. Yr oedd hynny'n wir i raddau ond yr oedd hefyd am eu bod yn gwybod ble yr oedd Cymru. Gwyddent oherwydd Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru. Pan oeddent yn eistedd mewn rhyw dref neu ddinas yn America yn gwrando ar Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru, yr oeddent yn ymwybodol ei fod yn gwmni blaenllaw. Dyna sut y gwyddent am Gymru a sut y cawsant eu darbwyllo i ymweld â safleoedd yng Nghymru.

Rhaid inni gydnabod bod cwmniâu fel Opera Cenedlaethol Cymru, a chelfyddydau a diwylliant Cymru, yn allweddol i'n datblygiad economaidd. Dyna beth ddaw â ffyniant i ardaloedd fel Ceredigion a'r Cymoedd. Ni allwn fod â meddwl cul a chredu os na fydd hyn yn digwydd yng Nghaerdydd, y bydd yn digwydd yn rhywle arall ac mai dim ond yr ardal honno fydd yn elwa ar hynny. Ni fydd hynny'n digwydd. Mae'r datganiad hwn yn sôn am fod yn realistig. Nid aiff y ganolfan yn ei blaen os aiff y tu hwnt i drothwy'r gost.

## Pwyntiau o Drefn Points of Order

**Jonathan Morgan:** Point of order. I raise this under Standing Order No. 9.10, relating to the business of Subject Committees. As you will be aware, Presiding Officer, the Education and Lifelong Learning Committee is undertaking a review of higher education. During early June, we are due to attend meetings in Scotland and Northern Ireland, in order to augment that review. Those are important meetings and will have an important contribution to make to the review. However, yesterday, Government Ministers tried to persuade the Committee to postpone these meetings, so disrupting its business, because of the pending Westminster general election. I seek your ruling on this matter, because I feel strongly that the Assembly's business, and that of the Subject Committees, needs to continue without being hindered by the pending general election at Westminster.

**Alun Pugh:** Further to that, that was an absurd point of order because the dates for the visits have not yet been fixed. All we asked for yesterday was that some common sense be applied in determining the dates.

**Gareth Jones:** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, cytunaf â'r hyn a ddywedodd Jonathan. Mae llawer o wastraffu amser yn digwydd ar hyn o bryd wrth sôn am etholiad cyffredinol—cyfeiriasoch at hynny y bore yma, Lywydd. Mae hynny bellach yn digwydd mewn Pwyllgor sydd â phethau holl bwysig i'w trafod. Gallaf felly ond gefnogi'r hyn a ddywedodd Jonathan Morgan, gan fod yn rhaid i'r Pwyllgor fwrw ymlaen â'r rhaglen y mae yn ei hystyried, heb edrych dros Glawdd Offa at rywbeth a allai ddigwydd neu beidio.

**The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson):** Further to that point of order, I am sorry that the Chair of the Committee is not in the Chamber to respond to the concerns expressed. As Minister for Education and Lifelong Learning, what I said in Committee yesterday was that we must ask our colleagues in Scotland and Northern

**Jonathan Morgan:** Pwynt o drefn. Codaf hyn o dan Reol Sefydlog Rhif 9.10, sydd yn ymwneud â busnes y Pwyllgorau Pwnc. Fel y gwyddoch, Lywydd, mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cynnal adolygiad o addysg uwch. Ar ddechrau Mehefin, byddwn yn mynchu cyfarfodydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, er mwyn ategu'r adolygiad hwnnw. Maent yn gyfarfodydd pwysig a bydd ganddynt gyfraniad pwysig i'w wneud i'r adolygiad. Fodd bynnag, ddoe, ceisiodd Gweinidogion y Llywodraeth ddarbwyllo'r Pwyllgor i ohirio'r cyfarfodydd hynny, gan amharu ar ei fusnes, oherwydd etholiad cyffredinol arfaethedig San Steffan. Ceisiaf eich dyfarniad ar y mater hwn, oherwydd teimlaf yn gryf fod angen i fusnes y Cynulliad, a busnes y Pwyllgorau Pwnc, barhau heb gael ei rwystro gan yr etholiad cyffredinol arfaethedig yn San Steffan.

**Alun Pugh:** Ymhellach i hynny, yr oedd hwnnw'n bwynt o drefn hurt oherwydd ni phenderfynwyd ar y dyddiadau ar gyfer yr ymweliadau eto. Y cyfan y gofynasom amdano ddoe oedd i rywfaint o synnwyr cyffredin gael ei arddel wrth benderfynu ar y dyddiadau.

**Gareth Jones:** Further to that point of order, I agree with what Jonathan said. Much time is wasted at present in talking about a general election—you referred to that this morning, Presiding Officer. That is now happening in a Committee that has very important issues to discuss. Therefore, I can only support what Jonathan Morgan said, because the Committee must proceed with the programme that it is considering, without looking over Offa's Dyke to something that may or may not happen.

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, mae'n ddrwg gennyl nad yw Cadeirydd y Pwyllgor yn y Siambra i ymateb i'r pryderon a fynegwyd. Fel y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, yr hyn a ddywedais yn y Pwyllgor ddoe oedd bod yn rhaid inni ofyn i'n cyd-Aelodau yn yr Alban

Ireland whether or not the dates we had originally chosen for the meetings are still appropriate in light of any considerations raised by other Members. The Committee then agreed that the clerk would consider, with colleagues in Scotland and Northern Ireland, whether or not the visits should go ahead on the initial putative dates or whether they should be postponed for a few weeks. The Chair then asked the Committee clerk to consider dates, and the whole Committee confirmed that it wants to ensure that the meetings go ahead in the timetable for the review. I reject the suggestion that I, as Minister, said that the timetable should be put back.

**Huw Lewis:** Further to that point of order, Jonathan is wasting Plenary time. We are discussing dates of meetings with colleagues from Scotland and Northern Ireland that the Committee has not yet fixed, in relation to the date of a general election that has not been fixed either. This is somewhat of a riddle within an enigma. The Committee made a sensible decision, with which it was content and this, therefore, does not need to be discussed in Plenary.

**The Presiding Officer:** The point of order was raised out of a general concern about the position of the Assembly in relation to a Westminster election. A Subject Committee's timetable is not a matter for me, it is a matter for the Chair, in consultation with the Minister and its members. I am sure that the Committee Chair—who is now in the Chamber—is fully able to discuss this matter with the Minister and the clerk.

**Cynog Dafis:** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, hoffwn nodi ein bod wedi cynnal trafodaeth ar y mater a chafwyd awgrymiadau na ddylem ymweld â Gogledd Iwerddon a'r Alban ar y dyddiadau a fwriadwyd yn wreiddiol, ond nad oedd wedi eu pennu'n derfynol. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r ymweliadau ddigwydd ar adeg gyfleus i bawb, yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Yr ydym yn benderfynol o ymweld mewn da bryd fel y gellir defnyddio'r wybodaeth a gasglwn yn yr adolygiad.

a Gogledd Iwerddon a yw'r dyddiadau a ddewisasom yn wreiddiol ar gyfer y cyfarfodydd yn briodol o hyd yng ngoleuni unrhyw ystyriaethau a godwyd gan yr Aelodau eraill. Yna cytunodd y Pwyllgor y byddai'r cleric yn ystyried, gyda chyd-Aelodau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, a ddylai'r ymweliadau fynd yn eu blaen ar y dyddiadau tybiedig cychwynnol ai peidio neu a ddylid eu gohirio am rai wythnosau. Yna gofynnodd y Cadeirydd i glerc y Pwyllgor ystyried dyddiadau, a chadarhaodd y Pwyllgor cyfan ei fod am sierhau bod y cyfarfodydd yn mynd yn eu blaen o fewn yr amserlen ar gyfer yr adolygiad. Gwrthodaf yr awgrym fy mod, fel Gweinidog, wedi dweud y dylid gohirio'r amserlen.

**Huw Lewis:** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, mae Jonathan yn gwastraffu amser y Cyfarfod Llawn. Yr ydym yn trafod dyddiadau cyfarfodydd â chyd-Aelodau o'r Alban a Gogledd Iwerddon nad yw'r Pwyllgor wedi eu pennu eto, mewn perthynas â dyddiad etholiad cyffredinol nas pennwyd ychwaith. Mae hyn yn rhywfaint o bos o fewn enigma. Gwnaeth y Pwyllgor benderfyniad synhwyrol ac mae'n fodlon arno ac felly, nid oes angen trafod hyn mewn Cyfarfod Llawn.

**Y Llywydd:** Codwyd y pwynt o drefn o bryder cyffredinol ynglŷn â sefyllfa'r Cynulliad mewn perthynas ag etholiad yn San Steffan. Nid mater i mi yw amserlen Pwyllgor Pwnc. Mae'n fater i'r Cadeirydd drwy ymgynghori â'r Gweinidog a'i aelodau. Yr wyf yn siŵr y gall Cadeirydd y Pwyllgor—sydd yn y Siambro erbyn hyn—drafod y mater hwn yn llawn gyda'r Gweinidog a'r cleric.

**Cynog Dafis:** Further to that point of order, I would like to note that we discussed this matter and it was suggested that we should not visit Northern Ireland and Scotland on the dates originally intended, but which had not been ultimately determined. The Committee decided that the visits should take place at a convenient time for all concerned, in Wales, Northern Ireland and Scotland. We are determined to visit in good time so that the information that we gather can be used in the review.

11:35 a.m.

**Y Llywydd:** Diolch i Gadeirydd y Pwyllgor am ei sylwadau. Nid oes etholiad ar gyfer y Siambwr hon, fel y dywedais yn gynharach, ac yr wyf yn awyddus i'r Cynulliad barhau â'i waith fel arfer.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pwynt o drefn. Codaf hyn o dan Reol Sefydlog Rhif 6.30 ar gwestiynau llafar. Codais y pwynt hwn fwy nag unwaith. Ar ôl cwestiwn pump i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, nid oedd cyfle ar gyfer cwestiwn atodol gan Aelodau, er bod gennyf fater etholaethol i'w godi. Nid wyf yn beirniadu'r Llywydd. Gwn ei bod yn eithriadol o anodd i reoli trafodion y Siambwr, ond dylid sicrhau bod cwestiynau atodol i bob cwestiwn a bod modd i'r Llywydd reoli amleiredd Gweinidogion.

**Y Llywydd:** Diolch i Rhodri Glyn Thomas am ei sicrwydd nad yw'n beirniadu'r Llywydd. Derbyniaf hynny yn yr ysbryd y'i cyflwynwyd. Tynnais sylw at y mater hwn ddydd Iau diwethaf pan oedd atebion gan Weinidogion yn golygu nad oedd modd i Aelod, heblaw'r Aelod a gyflwynodd y cwestiwn i'w godi'n llafar, i ofyn cwestiwn atodol.

Gofynnaf i Weinidogion, ac ni allaf wneud mwy na hynny, i ystyried a yw'n briodol i wneud datganiadau polisi sylweddol yn y Cyfarfod Llawn neu a ydynt yn fwy addas i'w gwneud mewn Pwyllgor. Os ydynt i'w gwneud mewn Cyfarfod Llawn, dylent fod ar ffurf datganiad yn hytrach nag mewn atebion i gwestiynau. Mae hynny'n hwyluso pethau o safbwyt yr ymateb gan Aelodau, sydd o'r pwys mwyaf i mi. Mae'r sesiwn gwestiynau yn bennaf ar gyfer Aelodau o bob plaid i ofyn cwestiynau. Mae cydbwysedd rhwng y pleidiau o ran gofyn cwestiynau yn fater o ddiddordeb i'r sawl sydd yn y Gadair.

**Nick Bourne:** Point of order. This relates to guidelines that I think have been issued by the Assembly and not yet published, relating to the conduct of Assembly business before the general election. I appreciate that we do not know the date of the general election, but

**The Presiding Officer:** I thank the Chair of the Committee for his comments. There is no election for this Chamber, as I said earlier, and I am eager for the Assembly to proceed with its work as usual.

**Rhodri Glyn Thomas:** Point of order. I raise this under Standing Order No. 6.30 on oral questions. I have raised this point more than once. Following question five to the Minister for Environment, there was no opportunity for Members to ask a supplementary question, although I had a constituency matter to raise. I am not criticising the Presiding Officer. I know that it is extremely difficult to control Chamber proceedings, but it should be ensured that there are supplementary questions to every question and that the Presiding Officer can control the verbosity of Ministers.

**The Presiding Officer:** I thank Rhodri Glyn Thomas for his assurance that he is not criticising the Presiding Officer. I accept that in the spirit in which it was presented. I drew attention to this matter last Thursday when replies from Ministers meant that it was not possible for a Member, apart from the Member who had tabled the oral question, to raise a supplementary question.

I ask Ministers, and I can do no more than that, to consider whether it is appropriate to make substantial policy statements in Plenary or whether it would be more appropriate to do so in Committee. If they do so in Plenary, it should be in the form of a statement rather than in answers to questions. That facilitates matters with regard to the response from Members, which concerns me most. The main purpose of the question and answer session is for Members from every party to ask questions. The balance between the parties in terms of asking questions is of concern to the person in the Chair.

**Nick Bourne:** Pwynt o drefn. Mae hyn yn ymwneud â chanllawiau a gyflwynwyd, fe gredaf, gan y Cynulliad, ond nas cyhoeddwyd eto, sydd yn ymwneud â'r ffordd y cynhelir busnes y Cynulliad cyn yr etholiad cyffredinol. Gwerthfawrogaf na wyddom

it will be while the Assembly is sitting. Sir Richard Wilson has indicated that Westminster has guidelines as to what Government announcements can be made in the period before a general election. We are in new territory, but it would be helpful, First Minister, if these guidelines could be issued to all Members so that we are aware of what can and what cannot happen in that period.

ddyddiad yr etholiad cyffredinol, ond bydd yn ystod eisteddiad y Cynulliad. Nododd Syr Richard Wilson fod gan San Steffan ganllawiau o ran pa gyhoeddiadau'r Llywodraeth y gellir eu gwneud yn y cyfnod cyn etholiad cyffredinol. Mae hwn yn faes newydd inni, ond byddai'n ddefnyddiol, Brif Weinidog, pe gellid cyflwyno'r canllawiau hyn i bob Aelod fel ein bod yn ymwybodol o'r hyn a all ddigwydd a'r hyn na all ddigwydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

**The Presiding Officer:** We will consider this matter. I understand that guidelines have been prepared about the use of the Assembly Chamber, for example, and there are also guidelines to Assembly officials. That could also affect the position of support staff.

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Further to that point of order, I believe that those guidelines will be made available, but not before the election is called, because to issue them would be to presume the date of the general election. The rules for both Assembly Ministers and officials are being prepared for what is, as Nick has accepted, a difficult situation because it is the first ever post-devolution general election. As soon as the general election is called, those rules will become public knowledge.

**The Presiding Officer:** I have been advised by the Clerk that guidelines have been issued generally, and made available to Members, about the use of Assembly property. That applies not only to Westminster elections but even more so to our election which will be on a fixed date in 2003.

**Nick Bourne:** Further to that point of order, my point was not about Assembly property, though that is also important. It is in relation to Government announcements in the period before a general election. I understand, though I stand to be corrected, that these guidelines are prepared. They are not in draft form. We received an indication from Westminster that they are prepared. Therefore I cannot see why they cannot be issued to Members. You are right, First Minister, that we are in virgin territory but it is important that all Members are aware of the rules and goalposts. If the rules are ready

**Y Llywydd:** Byddwn yn ystyried y mater hwn. Deallaf y paratowyd canllawiau ynglŷn â defnyddio Siambwr y Cynulliad, er enghrafft, ac mae canllawiau hefyd ar gael ar gyfer swyddogion y Cynulliad. Gallai hynny effeithio ar sefyllfa'r staff cymorth hefyd.

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, credaf y bydd y canllawiau hynny ar gael, ond nid cyn y gelwir etholiad, oherwydd byddai eu cyflwyno yn golygu rhagdybio dyddiad yr etholiad cyffredinol. Caiff y rheolau ar gyfer Gweinidogion y Cynulliad a'r swyddogion eu paratoi ar gyfer yr hyn sydd, fel y derbyniodd Nick, yn sefyllfa anodd gan mai dyma'r etholiad cyffredinol cyntaf ers datganoli. Cyn gynted ag y gelwir yr etholiad cyffredinol, daw'r rheolau hynny yn hysbys i bawb.

**Y Llywydd:** Fe'm cyngorwyd gan y Clerc bod canllawiau ynglŷn â defnyddio eiddo'r Cynulliad wedi eu cyflwyno'n gyffredinol, a'u bod ar gael i'r Aelodau. Mae hynny'n berthnasol nid yn unig i etholiadau San Steffan ond hyd yn oed yn fwy felly i'n hetholiad ni a fydd ar ddyddiad penodedig yn 2003.

**Nick Bourne:** Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, nid oedd fy mhwynt yn ymwneud ag eiddo'r Cynulliad, er bod hynny'n bwysig hefyd. Mae mewn perthynas â chyhoeddiadau'r Llywodraeth yn y cyfnod cyn etholiad cyffredinol. Deallaf, er y syrthiaf ar fy mai os wylf yn anghywir, fod y canllawiau hyn wedi eu paratoi. Nid ydynt ar ffurf ddrafft. Derbyniwasom awgrym gan San Steffan eu bod wedi eu paratoi. Felly, ni allaf weld pam na ellir eu rhoi i'r Aelodau. Yr ydych yn iawn, Brif Weinidog, ein bod yn torri tir newydd ond mae'n bwysig fod pob Aelod yn ymwybodol o'r rheolau a'r

for issuing to Members I cannot see any reason why that cannot be done.

**The Presiding Officer:** I believe that the Leader of the Welsh Conservatives may be referring to guidance to the Executive. I have no responsibility for anything that emanates from Westminster, except for any speeches that I may make in the second Chamber.

amodau. Os yw'r rheolau yn barod i'w rhoi i'r Aelodau, ni allaf weld unrhyw reswm dros beidio â gwneud hynny.

**Y Llywydd:** Credaf fod Arweinydd Ceidwadwyr Cymru yn cyfeirio efallai at ganllawiau i'r Weithrediaeth. Nid wyf yn gyfrifol am unrhyw beth sydd yn deillio o San Steffan, ar wahân i unrhyw areithiau a wnaf yn yr ail Siambr efallai.

### **Cynnig Trefniadol Procedural Motion**

**The Presiding Officer:** In the absence of the Minister for Assembly Business, I call Jane Davidson to propose the motion.

**The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson):** I propose that

*the National Assembly, under Standing Order No. 6.16, brings forward the no-named day motion tabled on 3 April 2001 on approving the three-month timetable of Assembly business.*

Andrew Davies referred to the fact that this procedural motion would be proposed today in his business statement on Tuesday.

**Y Llywydd:** Yn absenoldeb y Trefnydd, galwaf ar Jane Davidson i gynnig y cynnig.

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.16, yn dwyn gerbron y cynnig heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd ar 3 Ebrill 2001 ar gymeradwyo'r amserlen tri mis ar gyfer busnes y Cynulliad.*

Cyfeiriodd Andrew Davies at y ffaith y cai'r cynnig trefniadol hwn ei gynnig heddiw yn ei ddatganiad busnes ddydd Mawrth.

*Cynnig: O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 46, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
German, Michael  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Gwyther, Christine  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina

Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Melding, David  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Derbynwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**Cymeradwyo'r Amserlen Tri Mis ar gyfer Busnes y Cynulliad**  
**Approval of the Three-month Timetable of Assembly Business**

**The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson):** I propose that

*the National Assembly notes the proposed three-month timetable of Assembly business laid in the Table Office on 3 April 2001, under Standing Order No. 5.1.*

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r amserlen tri mis arfaethedig ar gyfer busnes y Cynulliad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Ebrill 2001, o dan Reol Sefydlog Rhif 5.1.*

*Cynnig: O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 46, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val

German, Michael  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Gwyther, Christine  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Melding, David  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

### **Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders**

**Y Llywydd:** Cynigir y cynnig hwn o dan Reol Sefydlog Rhif 22.25, ac felly ni chynhelir dadl arno.

**The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson):** I propose that

*the National Assembly, acting under Standing Order No. 22.25,*

*approves the National Health Service (Optical Charges and Payments) and (General Ophthalmic Services) (Amendment) (No.2) (Wales) Regulations 2001 laid in the Table Office on 14 March 2001;*

*considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the National Health Service (Optical Charges and Payments) and (General Ophthalmic Services) (Amendment) (No.2) (Wales)*

**The Presiding Officer:** This motion is proposed under Standing Order No. 22.25, and therefore it is not subject to debate.

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 22.25,*

*yn cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001;*

*yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2)*

*Regulations 2001, laid in the Table Office on 20 March 2001;* (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001;

*approves the Valuation Tribunals (Amendment) (Wales) Regulations 2001 laid in the Table Office on 6 March 2001;* yn cymeradwyo Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2001;

*considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Valuation Tribunals (Amendment) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 20 March 2001;* yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001;

*approves the Coffee Extracts and Chicory Extracts (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 21 March 2001;* yn cymeradwyo Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2001;

*considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Coffee Extracts and Chicory Extracts (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 27 March 2001 and the Memorandum of Corrections laid in Table Office on 28 March 2001;* yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2001.

*approves the Ancient Monuments (Applications for Scheduled Monument Consent) (Welsh Forms and Particulars) Regulations 2001, laid in the Table Office on 14 March 2001; and:* yn cymeradwyo Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Ffurflen i a Manylion Cymraeg) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001; ac

*considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Ancient Monuments (Applications for Scheduled Monument Consent) (Welsh Forms and Particulars) Regulations 2001, laid in the Table Office on 20 March 2001.* yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Ffurflen i a Manylion Cymraeg) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001.

*Cynnig: O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane

Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Ron  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
German, Michael  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Gwyther, Christine  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Melding, David  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000  
(Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001**  
**The Approval of the Countryside and Rights of Way Act 2000  
(Commencement No. 2) (Wales) Order 2001**

**The Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of William Graham to the first motion.

**The Minister for Environment (Sue Essex):** I propose that

*the National Assembly*

*considers the principle of the Countryside and Right of Way Act 2000 (Commencement No. 2) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office on 7 March 2001.*

I propose that

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham i'r cynnig cyntaf.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol*

*yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2001.*

Cynigiaf fod

*the National Assembly*

*considers the report of the Legislation Committee which has not identified under Standing Order No. 11.5 any matters for concern in the draft Order, the Countryside and Right of Way Act 2000 (Commencement No. 2) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office on 20 March 2001; and*

*approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 7 March 2001.*

The purpose of these motions is to seek your agreement to making the Countryside and Right of Way Act 2000 (Commencement No. 2) (Wales) Order 2001 in order to bring into effect certain provisions embodied in the Countryside and Rights of Way Act 2000.

I will not support William Graham's amendment 1, because it seeks to reopen the debate about a voluntary approach to the provision of countryside access. The Assembly debated that issue prior to the Act's Royal Assent. The provision of a statutory right of access now underpins the legislation and there is no merit in re-examining the principle. In addition, the Act provides for landowners who wish to voluntarily dedicate land as access 1 and to do so.

The Order relates to a limited range of powers under the Act to come into effect from 1 May 2001. The Order will bring into effect all the provisions of Part IV, which relate to areas of outstanding natural beauty. These include procedures for designating areas of outstanding natural beauty, power for the Assembly to establish conservation boards for such areas and a duty for local authorities to prepare areas of outstanding natural beauty management plans within three years.

The Order also commences provisions for the Countryside Council for Wales to make recommendations to access authorities in the use of their powers and to make by-laws over accessed land where appropriate. It also

*y Cynulliad Cenedlaethol*

*yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder dan Reol Sefydlog Rhif 11.5 yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001; ac*

*yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2001.*

Diben y cynigion hyn yw ceisio eich cytundeb i gyflwyno Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001 er mwyn rhoi darpariaethau penodol ar waith sydd yn rhan o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Ni chefnogaf welliant 1 William Graham, gan ei fod yn ceisio ailagor y ddadl am ymagwedd wirfoddol tuag at ddarparu mynediad i gefn gwlaid. Cynhaliodd y Cynulliad ddadl ar y mater hwnnw cyn Cydsyniad Brenhinol y Ddeddf. Mae darpariaeth hawl mynediad statudol yn sail i'r ddeddfwriaeth bellach ac nid oes rhinwedd i ailarchwilio'r egwyddor. Hefyd, darpara'r Ddeddf ar gyfer tirfeddianwyr sydd yn dymuno neilltuo tir yn wirfoddol fel mynediad 1 a gwneud hynny.

Mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag amrywiaeth cyfyngedig o bwerau o dan y Ddeddf sydd i'w gweithredu o 1 Mai 2001. Bydd y Gorchymyn yn rhoi holl ddarpariaethau Rhan IV, sydd yn ymwneud ag ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer dynodi ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, pŵer i'r Cynulliad sefydlu byrddau cadwraeth ar gyfer ardaloedd o'r fath a dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau rheoli ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol o fewn tair blynedd.

Cychwynna'r Gorchymyn hefyd ddarpariaethau i Gyngor Cefn Gwlad Cymru wneud argymhellion i gael mynediad i awdurdodau o ran gwneud defnydd o'u pwerau a chreu is-ddeddfau dros dir y cafwyd

allows it to make grants and loans to any person for any of the purposes of the Act. Thirdly, it states that CCW must include a report on the discharges of its functions under the Act in its annual report. These are important provisions.

The Order will commence provisions relating to private vehicular access across common land to premises. It also introduces amendments to the Highways Act 1980, which provide for simplified procedures for closing or diverting footpaths or bridal ways when justified on grounds such as the safety of school children and staff, crime prevention and where there is unreasonable interference with agriculture.

The main control mechanisms on the right of access will be introduced through regulations that have yet to be presented to the Assembly. They will first be the subject of detailed consultation, but there will be an opportunity for a full debate on these provisions in due course.

In themselves, the provisions in this Order will not provide greater access to the countryside. The public will have not have a general right of access to the countryside until access land has been mapped and other preparatory work completed. It is important to state that. The provisions of this commencement Order will not hinder the fight against the spread of the foot and mouth disease in any way. It represents the next step in implementing the provisions of this important Act and making the most of the opportunities it provides for this country. I commend the motions to Members.

11:45 a.m.

**David Davies:** I propose amendment 1 in the name of William Graham. Add at the end of the first motion:

*notes the additional financial and bureaucratic burdens placed upon landowners and local authorities as a result of this legislation and recognises that voluntary access agreements represent a*

mynediad iddo lle y bo'n briodol. Caniatâ iddo hefyd roi grantiau a benthyciadau i unrhyw berson at unrhyw un o ddibenion y Ddeddf. Yn drydydd, noda fod yn rhaid i'r Cyngor gynnwys adroddiad ar gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf yn ei adroddiad blynnyddol. Mae'r rhain yn ddarpariaethau pwysig.

Bydd y Gorchymyn yn cychwyn darpariaethau mewn perthynas â mynediad preifat i gerbydau ar draws tir cyffredin i eiddo. Cyflwyna hefyd welliannau i Ddeddf Prifyrdd 1980, sydd yn darparu ar gyfer gweithdrefnau wedi'u symleiddio ar gyfer cau neu ddargyfeirio llwybrau troed neu ffyrdd ceffylau pan fo cyflawnhad dros hynny am resymau fel diogelu plant ysgol a staff, atal troseddau a lle yr ymyrrir ag amaethyddiaeth mewn ffordd afresymol.

Cyflwynir y prif ddulliau rheoli ar yr hawl mynediad drwy reoliadau sydd eto i'w dwyn gerbron y Cynulliad. Ymgynghorir arnynt yn fanwl yn gyntaf, ond bydd cyfle am ddadlawn ar y darpariaethau hyn maes o law.

Ynddynt eu hunain, ni fydd y darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn rhoi mwy o fynediad i gefn gwlad. Ni fydd gan y cyhoedd hawl mynediad cyffredinol i gefn gwlad hyd nes y caiff tir mynediad ei fapio ac y cwblheir gwaith rhagbaratoawl arall. Mae'n bwysig nodi hynny. Ni fydd darpariaethau'r Gorchymyn cychwyn hwn yn rhwystr i'r frwydr yn erbyn lledaeniad clwy'r traed a'r genau mewn unrhyw ffordd. Y cam nesaf ydyw yn y broses o weithredu darpariaethau'r Ddeddf bwysig hon a gwneud y gorau o'r cyfleoedd y mae'n eu darparu ar gyfer y wlad hon. Cymeradwyaf y cynigion i'r Aelodau.

**David Davies:** Cynigiaf welliant 1 yn enw William Graham. Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

*yn nodi'r beichiau ariannol a biwrocrataidd ychwanegol a roddir ar dirfeddianwyr ac awdurdodau lleol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon ac yn cydnabod bod cytundebau mynediad gwirfoddol yn ffordd*

*more cost efficient and participatory way forward.*

The Conservative group has deep concerns about the current right-to-roam legislation. We support the general provision for greater access to the countryside. However, creating access by imposing compulsory burdens on farmers is not the answer. The foot and mouth disease crisis has already increased costs and pressure on farmers to an intolerable degree. The additional burdens of enacting this legislation could push some beyond breaking point. Foot and mouth disease has shown how fragile our countryside is. The Government would not consider allowing unfettered access to factories or industrial complexes. At least, I do not think it is considering that at present. However, it does not seem to realise that allowing walkers to roam around the nation's food-producing areas could have serious consequences. Voluntary access would at least allow farmers some control over which areas are made available to the public, and at which times of the year. This legislation will impose increased costs on local authorities and farmers. The Government has failed to take account of that, and our amendment, which I hope that Members will support, is an attempt to put that right. The Government may argue that there will not be an increase in costs. In that case, I urge it to support our amendment because it will not cost it anything but will provide reassurance in rural areas.

What we find most insidious about this scheme is that it represents an attack on one of the most basic human rights: the right to own property. New Labour members may have thrown away their donkey jackets and shaved off their beards and may even have adopted a few Conservative economic policies such as privatisation—and we congratulate them for that—but, sadly, socialist instincts still lurk and rise to the surface every now and then. This Act is an unpleasant manifestation of those socialist instincts and of putting the interests of the state before the interests and rights of the individual. Even at this late stage, I urge Members to join the Conservative group in

*ymlaen sy'n fwy cost-effeithlon a chyfranogol.*

